Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for an |
| **CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD IAU 7 MEHEFIN 2018** | **MONDAY 7 JUNE 2018** |
| **am 11.00 o'r gloch** | **at 11.00 am** |

# R H A G L E N

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

   Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2. **DOGFEN YMGYNGHOROL PAPUR GWYRDD - CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL: CYFLAWNI DROS EIN POBL**

   Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **7 Mehefin, 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Papur Gwyrdd – Dogfen Ymgynghori – Cryfhau Llywodraeth Leol – Cyflawni dros ein Pobl** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Prif Weithredwr<br>(Awdur - Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ystyried ymateb y Cyngor** |

**1. Cyflwyniad**

Cyhoeddwyd Dogfen Ymgynghorol Papur Gwyrdd – Cryfhau Llywodraeth Leol – Cyflawni dros ein Pobl" ar 20 Mawrth, 2018.

Mae'r papur Gwyrdd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer "Llywodraeth leol gryfach, sy'n fwy grymus yng Nghymru."

Gofynnir am adborth erbyn 12 Mehefin, 2018.

Wrth amlinellu'r achos dros newid, mae'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi bod "y cynigion yn y ddogfen hon yn nodi'r agwedd a ddymunir ar gyfer dyfodol llywodraeth leol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, fwy gwydn a chynaliadwy sy'n arddangos atebolrwydd wrth ei wraidd"

Mae'r ddogfen ymgynghori sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad 1** yn cynnwys 7 adran:

- Dyfodol llywodraeth leol
- Yr achos dros newid
- Opsiynau ar gyfer cryfhau llywodraeth leol
- Dod i gytundeb ar batrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol
- Proses glir sy'n cael ei harwain yn ddemocrataidd
- Cryfhau llywodraeth leol a chymorth drwy newid
- Cynghorau Cymuned a Thref

Mae'r Papur Gwyrdd yn dadlau o blaid ad-drefnu – gwahanol safbwynt i Bapur Gwyn 2017 a oedd yn cadarnhau na fyddai'r syniad o ad-drefnu yn cael ei weithredu gyda'r ffocws yn hytrachar fwy o gyd weithio rhwng Awdurdodau.

**2. Opsiynau**

Cyflwynir 3 opsiwn yn y Papur Gwyrdd:

Opsiwn 1 – Uno gwirfoddol rhwng awdurdodau lleol
Opsiwn 2 – Dull fesul cam erbyn 2026
Opsiwn 3 – Rhaglen uno gynhwysfawr a neilltuedig erbyn 2022

Gofynnir am safbwyntiau ar nifer o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori.

**3. Safbwynt y Cyngor ar ad-drefnu**

Mae'r Arweinwyr Grŵp wedi sefydlu Panel Ad-drefnu Llywodraeth Leol er mwyn ystyried ymateb drafft y Cyngor – **Atodiad 2.**

Mae'r Panel ac Arweinyddion Grwpiau wedi dod i'r casgliad na chefnogir y cynigion hyn a'u bod yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ad-drefnu o'r awdurdod yn y dyfodol yn seiliedig ar y ffeithiau a gyflwynwyd.

Mae safbwynt y Cyngor wedi'i lunio ar yr egwyddorion a nodir yn nhudalen 1 o'r ymateb drafft sef:

*1) Yr angen i ddarparu trigolion Ynys Môn â gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Cydnabyddir y gallai hyn gynnwys cydweithio rhanbarthol ac is-ranbarthol er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd ac gwytnwch angenrheidiol yn ei le a bod angen sefydlu trefniant er mwyn sicrhau atebolrwydd uniongyrchol yn lleol ar gyfer ansawdd y gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen dealltwriaeth o'r math o wasanaethau a fydd yn cael eu darparu'n rhanbarthol, yn is-ranbarthol ac yn lleol, wedi'i alinio'n fras â chanfyddiadau Comisiwn Williams ond hefyd yn awgrymu bod angen i lywodraeth leol wneud penderfyniadau ar strwythurau cydweithio.*

*2) Fe ddylai unrhyw drefniadau cydweithio fod yn seiliedig ar y buddion tebygol i drigolion Ynys Môn neu ar y rhagdybiaeth y gellir darparu gwasanaethau o'r un safon yn rhatach.*

*3) Mae'r Cyngor o'r farn bod arweinyddiaeth yn seiliedig ar wybodaeth leol yn bwysicach na maint. Mae'r Cyngor o'r farn y gellid bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o gydweithio a darpariaeth leol, h.y. estyniad naturiol o'r sefyllfa bresennol. Yn ychwanegol, at hynny, cydnabyddir bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i unrhyw bosibilrwydd o ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cost-effeithiol, e.e. lleihau costau rheoli neu wasanaethau cefnogi.*

Fe ddylai'r materion allweddol hyn fod yn ganolog i unrhyw benderfyniad ar ad-drefnu llywodraeth leol, yn hytrach na llinellau ar fap.

**Argymhelliad:**

1) Cadarnhau safiad y Cyngor ar ddiwygio llywodraeth leol fel y nodir yn Atodiad 2 ynghyd â'r ymatebion i gwestiynau penodol.

2) Rhoi awdurdod i'r Prif weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i greu ymateb terfynol y Cyngor erbyn 12 Mehefin, 2018.

**Prif Weithredwr**
**29/05/2018**

Rhif: WG34071

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghorol Papur Gwyrdd

# Cryfhau Llywodraeth Leol:

# Cyflawni dros ein Pobl

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mawrth 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Mehefin 2018

© Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru i sicrhau llywodraeth leol gryfach, sy'n fwy grymus yng Nghymru yw 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl'. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn amlinellu'r dull y dymunir ei fabwysiadu ar gyfer dyfodol llywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy, gydag atebolrwydd democrataidd yn graidd iddi. |
| **Sut i ymateb** | I ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ar-lein neu'r holiadur yng nghefn y ddogfen a'u dychwelyd naill ai drwy e-bost i<br><br>CryfhauLlywleol@llyw.cymru<br>Neu drwy'r post i<br><br>Cryfhau Llywodraeth Leol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cryfhau Llywodraeth Leol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: CryfhauLlywleol@llyw.cymru |
| **Diogelu Data** | Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. |

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan : www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost : Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

## Tudalen Gynnwys

Rhagair ........................................................................................................ 6
1. Dyfodol Llywodraeth Leol ........................................................................ 8
2. Yr achos dros newid ................................................................................ 10
3. Opsiynau ar gyfer cryfhau llywodraeth leol ........................................ 16
4. Dod i gytundeb ar batrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol ...................... 22
5. Proses glir sy'n cael ei harwain yn ddemocrataidd ............................... 29
6. Cryfhau llywodraeth leol a chymorth drwy newid ................................. 36
7. Cynghorau Cymuned a Thref .................................................................. 49
8. Casgliadau ................................................................................................ 50

Atodiad A - Cyhoeddiadau / ymgyngoriadau blaenorol

Atodiad B – Tablau

Atodiad C – Cwestiynau Ymgynghori

## Rhagair



Rwy'n credu mewn llywodraeth leol.

Cefais fy magu ar aelwyd lle'r oedd fy rhieni yn gweithio i gyflenwi gwasanaethau lleol yn Nhredegar. Mae llywodraeth leol yn golygu mwy imi na strwythurau a llinellau ar fapiau. Yn fy marn i, pobl sy'n bwysig yn y drafodaeth hon. Trafodaeth am bwy ydyn ni fel pobl yw hon.

Rydw i am drafod sut allwn ni gryfhau cymunedau a chynghorau a'u grymuso ar draws Cymru. Rwy'n cytuno gyda'r rheini sydd wedi dadlau bod angen inni ddatganoli pwerau, nid yn unig i Gymru ond i bob ardal o Gymru hefyd. Rydw i eisoes wedi gofyn i arweinwyr cynghorau pa bwerau newydd ac ychwanegol y maen nhw eu heisiau i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel ac i siapio dyfodol y cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli. Rydw i wedi ymrwymo i roi mwy o bwerau i lywodraeth leol Cymru nag unrhyw bryd ers datganoli. Yn fwy na hynny, rydw i hefyd am roi'r pwerau newydd hynny i gynghorau sy'n ddigon cadarn a chynaliadwy i'w defnyddio.

Hyderaf y bydd hon yn drafodaeth ffrwythlon a chadarnhaol. Yn rhy aml yn y gorffennol rydyn ni wedi canolbwyntio yn anad dim arall ar yr heriau sy'n wynebu cynghorau. Mae hyn yn wir, boed y rheini'n heriau ariannol neu o natur arall. Fy ngobaith i nawr yw canolbwyntio ar y cyfleoedd y gallwn ni eu creu i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae arnom angen gynghorau sydd â mwy o ryddid a phwerau, sy'n fwy mentrus ac arloesol, ac sy'n gallu sicrhau'r atebion gorau i'w hardaloedd a siapio eu dyfodol.

Rydyn ni i gyd eisiau gweld mwy o bobl yn ymuno â llywodraeth leol i wasanaethu fel cynghorwyr. Mae angen cynghorwyr profiadol a newydd arnom sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau – cynghorwyr galluog sy'n cael eu hysgogi i sicrhau'r gwerth gorau am arian ac sy'n frwdfrydig ac yn gweithio'n galed i wella bywydau pobl er gwell. Rydyn ni i gyd hefyd eisiau gweld dadl ac atebolrwydd democrataidd cadarn wedi'u hymwreiddio yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys cynghorau cymuned a thref, sy'n rhan bwysig o'r broses o gyflenwi llywodraeth leol gryf. Mae rôl cynghorwyr a'u perthynas â'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli wedi newid yn sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, ond maen nhw'n rhan gwbl hanfodol o lywodraeth leol o hyd. Mae gan gymunedau ddisgwyliadau uchel ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac mae cynghorwyr ym mhob cwr o Gymru yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd.

Rydyn ni angen cynghorau sydd ag aelodau sy'n llwyr gynrychioliadol o'r gymuned leol ac sy'n berthnasol i bawb. Cynghorau lle mae aelodau etholedig yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu hymrwymiad ac am eu rôl hanfodol yn ein democratiaeth sydd arnom eu hangen.

Nid wyf yn credu y gellir datblygu'r weledigaeth hon o lywodraeth leol bwerus, gadarn a brwdfrydig heb gynnal trafodaeth ddifrifol am strwythurau llywodraeth leol. Mae ar Gymru angen awdurdodau lleol cryf ac effeithiol, sydd wedi'u grymuso ac sy'n gallu gwrthsefyll cyni cyllidol parhaus, ac mae angen iddi ddatblygu strwythurau lleol democrataidd sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i'n hawdurdodau lleol fod yn ddigon mawr i feddu ar y capasiti a'r gallu i ddatblygu a gweithredu'r atebion newydd mentrus a fynnir gan yr heriau cynyddol sy'n eu hwynebu. Os na fyddwn yn newid, byddwn yn colli mwy o gyfleoedd i foderneiddio, integreiddio a thrawsnewid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud. Bydd hyn yn drychinebus i bob un ohonon ni sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau lleol ac sydd hefyd am weld llywodraeth leol gryfach yn y dyfodol.

Rwy'n gwybod bod llywodraeth leol wedi ymdrechu'n galed i newid, addasu a buddsoddi ar gyfer y dyfodol, ond rwy'n deall hefyd nad oes llawer o opsiynau i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau lleol yn y dyfodol yn wyneb toriadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU). Mae amser yn brin a rhaid i lywodraeth leol gymryd camau radical mewn ymateb i'r heriau rydyn ni i gyd yn eu cydnabod er mwyn iddi barhau i fod yn berthnasol i'r genhedlaeth nesaf, adfer ei phwrpas ac ennyn hyder.

Mae cydweithio'n rhanbarthol yn parhau'n gwbl hanfodol. Mae hyn yn ganolog i'n model o gyflenwi mewn addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac mae llywodraeth leol wedi mynd ati'n rhagweithiol i arwain ar hyn drwy'r Bargeinion Dinesig a Thwf. Rhaid i hyn barhau ond rhaid gwneud mwy hefyd.

Rhaid i'r cam nesaf weddnewid y drefn. Rwy'n gwybod bod llawer mewn llywodraeth leol yn deall hyn, ac rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda nhw i sicrhau newid. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi cynigion i annog mwy i gymryd rhan a gwella'r broses ddemocrataidd i bob un yng Nghymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno rhai opsiynau i greu awdurdodau lleol cryfach a mwy pwerus drwy eu dwyn ynghyd i greu awdurdodau newydd. Drwy ddod ag awdurdodau lleol at ei gilydd, a gwneud ystod o newidiadau eraill i adfywio'r broses ddemocrataidd a chryfhau rôl aelodau etholedig, gellir darparu sefydliadau cyhoeddus cynaliadwy o safon sy'n atebol yn ddemocrataidd ac sy'n gallu mynd i'r afael â'r holl heriau economaidd a chymdeithasol a wynebir gan ein cymunedau heddiw, ac yn y dyfodol.

Rwy'n gobeithio y gallwn ni nawr gael sgwrs gadarnhaol, adeiladol ac optimistaidd am sut allwn ni fynd ati i rymuso a chryfhau llywodraeth leol ar gyfer y dyfodol.

**Alun Davies**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**


## 1. Dyfodol Llywodraeth Leol

1.1 Mae Llywodraeth Cymru am weld llywodraeth leol gryf, sydd wedi'i grymuso, ac sy'n gallu arwain yn fentrus, gyda phenderfyniad a ffocws, ar lefel leol. Rydym yn credu y dylai llywodraeth leol, ei haelodau etholedig a'i swyddogion gael eu parchu gan eu cymunedau, a bod yn gynrychioliadol ohonynt. Rydym am gael cynghorau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan eu cymunedau ac sy'n fan cychwyn i'r rheini sydd am gysylltu â chymunedau lleol pa un a ydynt o'r sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector.

1.2 Ein gweledigaeth yw sicrhau bod yr awdurdodau lleol wedi'u grymuso a'u bod yn meddu ar y rhyddid, y pwerau a'r gwerthoedd i'w hybu i edrych tua'r dyfodol, gan ddysgu o'r gorffennol ond heb fod yn gaeth iddo. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl yn hyn sy'n cael ei wneud yn well, a'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae hyn yn ei wneud i fywydau pobl.

1.3 Mae ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yn adeiladu ar ei chryfderau presennol. Adfywio yw'r nod yn hytrach nag ailddyfeisio. Mae'n edrych ymlaen at gynghorau sydd â'r cryfder a'r gallu i weithio er budd gorau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Cynghorau sy'n gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth ac sy'n defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol er budd y cyhoedd. Mae'n amcanu hefyd at system llywodraeth leol lle bo'r gweithlu yn cael ei werthfawrogi a'i barchu, ac yn dylanwadu ar wella gwasanaethau – gyda chefnogaeth ac anogaeth i fod yn eiriolwyr dros y bobl y maent yn eu gwasanaethu. System lle mae partneriaethau cymdeithasol yn sail i'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'u staff, lle cânt eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel cryfder. Bydd awdurdodau lleol sy'n fwy o faint ac sydd wedi'u grymuso, yn eu tro, yn grymuso cynghorau tref a chymuned i fod yn fentrus ac yn uchelgeisiol.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod yn rhaid ailystyried y strwythur presennol er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymchwilio i ffyrdd posibl o wireddu'r weledigaeth hon.


Cymunedau
- Wedi'u Grymuso ac yn Mynegi Diddordeb
- Yn Ffyniannus a Llwyddiannus
- Yn Cael Eu Cynrychioli ac yn Ddylanwadol
Llywodraeth Leol Gryfach
- Yn Esblygu ac Arloesi
- Yn Agored a Thryloyw
- Yn Cael Ei Gwerthfawrogi gan Gymunedau
Gweithlu'r Sector Cyhoeddus
- Yn Cael Ei Werthfawrogi a'i Barchu
- Yn Cael Ei Gefnogi a'i Annog
- Yn Arwain ac yn Greadigol
Aelodau Etholedig
- Yn Fentrus ac Uchelgeisiol
- Yn Llywio a Dylanwadu
- Yn Berthnasol ac yn Gynrychioladol

## 2. Yr achos dros newid

2.1 Nid yw diwygio llywodraeth leol yn ddiben ynddo'i hun. Y diben yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a mynd ati i greu cynghorau cryf sy'n atebol yn ddemocrataidd ac sy'n gweithio ar y raddfa gywir i gael eu grymuso i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus. Sicrhau llywodraeth leol gryf, sy'n gweithio gyda chymunedau ac ar eu rhan, a fydd yn ein helpu i sicrhau ffyniant i bawb yw'r nod.

2.2 Mae democratiaeth leol yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru. Mae ein treftadaeth a thraddodiadau ein gwasanaeth cyhoeddus yn seiliedig ar y gwerthoedd sy'n deillio o'r ymdrechion am gyfiawnder cymdeithasol yn llawer o'n cymunedau ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ddiwedd yr ugeinfed ganrif, gwelwyd cymunedau yn dod ynghyd unwaith eto i frwydro dros eu credoau a'u gwerthoedd, dros swyddi a thros ddyfodol i'w plant.

2.3 Rydym bellach yn wynebu heriau newydd, sy'n fwy difrifol oherwydd effaith globaleiddio. Mae cenhedlaeth newydd yn troi at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus am gyfeiriad, er mwyn cadw gwead cymunedau a darparu cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau democrataidd. Bydd democratiaeth leol gryf, wedi'i grymuso, yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a wynebwn, i ganfod yr atebion lleol gorau ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy.

2.4 Fel y mae Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi dweud, ar hyn o bryd, mae:

*"gwasanaethau'n dirywio hyd nes eu bod bron â methu, ac mae rhwystredigaeth y cyhoedd yn cynyddu, yn ddigon teg, wrth iddynt dalu'r dreth gyngor ond gweld hefyd fod swyddogaethau allweddol yn y gymuned yn cael eu torri, neu eu dirwyn i ben gyfan gwbl... Mae'r sefyllfa i gyd yn anghynaliadwy. Ni allwn ddisgwyl i awdurdodau lleol barhau i ddarparu'r un amrywiaeth a lefel o wasanaeth a gorfod gwneud y toriadau llymaf ar yr un pryd. Yn syml, mae'n rhaid cyfaddawdu yn rhywle."*

2.5 Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na all llywodraeth leol barhau ar ei ffurf bresennol os yw am fod yn gynaliadwy a darparu'r sylfaen sy'n angenrheidiol i genedlaethau'r dyfodol a'u cymunedau ffynnu. Mae'n her gymhleth sydd angen dull hirdymor, ac nid arian yw'r unig ystyriaeth. Rhaid inni edrych ar rôl llywodraeth leol, sut y mae'n gweithio, beth yw disgwyliadau pobl – mae angen trawsnewid sut y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi a galluogi awdurdodau lleol i arwain eu cymunedau.

**Yr angen am newid**

2.6 Mae'r sail resymegol ar gyfer newid yn syml ac yn un sydd angen gweithredu arni ar fyrder. Mae ar Gymru angen llywodraeth leol gryfach, gyda'r gallu i ymateb i'r heriau a wynebwn. Cynghorau sydd â'r pwerau, y gallu a'r capasiti i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen ar ein dinasyddion. Mae angen awdurdodau lleol sy'n cefnogi cymunedau drwy ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon ac yn effeithiol. Rydym wedi ystyried nifer o wahanol atebion i'r her hon dros y pedair blynedd diwethaf[1].

2.7 Yn adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (y Comisiwn Williams) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014[2], cyflwynwyd yr achos dros ddiwygio strwythur awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy ac o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu. O safbwynt creu awdurdodau mwy o faint, roedd yr adroddiad yn nodi:

*"...ymddengys mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydliadau bach ac yn wir, yr unig opsiwn sy'n ddichonadwy ac y gellir ei roi ar waith yn y byrdymor i'r tymor canolig. Mae angen rhaglen o'r fath er mwyn sicrhau democratiaeth leol, cyflawni arbedion cost a chreu awdurdodau lleol sy'n wydn ac mewn sefyllfa well i allu ymdopi â'r heriau a wynebir. Dyma'r opsiwn hefyd y gellir ei roi ar waith mewn ffordd amserol a'r opsiwn sydd lleiaf tebygol o effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau rheng flaen."*

2.8 Dywedodd y Comisiwn Williams fod ardaloedd cyngor sy'n llai eu maint yn wynebu heriau sylweddol wrth geisio cyflenwi gwasanaethu mewn modd cyson, gan sicrhau'r cadernid, yr arbenigedd a'r arweinyddiaeth a all drawsnewid eu sefydliadau a chefnogi eu cymunedau mewn byd cymhleth, sy'n newid. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn bod cyfyngiadau pellach ar awdurdodau lleol llai eu maint oherwydd bod eu gorbenion gweinyddol yn uwch ar gyfartaledd.

2.9 Nid beirniadaeth o'r rheini a oedd yn gweithio yn y sefydliadau hynny, neu'n eu harwain, oedd hyn. I'r gwrthwyneb, roedd yn cydnabod bod yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, yn enwedig yn y blynyddoedd ers 2008, wedi ei wneud mewn cyd-destun heriol iawn. Daeth Comisiwn Williams i'r casgliad bod diwygio yn hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol fod yn gadarn yn ariannol ac i allu cynnal a gwella safon gwasanaethau i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru yn y dyfodol.

---

[1] Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o'r cyhoeddiadau / ymgyngoriadau blaenorol sydd yn sail i'r opsiynau yn yr ymgynghoriad hwn, ac sydd wedi dylanwadu arnynt.
[2] http://gov.wales/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-summary-report-cy.pdf
http://gov.wales/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf

2.10 Derbyniodd y Llywodraeth Cymru ar y pryd y dadleuon hyn ac ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddwyd y *Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol* a oedd yn cynnig mynd ati i ddiwygio'n strwythurol drwy uno nifer o awdurdodau, ac roedd y strwythur a ffafriwyd yn cynnwys wyth neu naw ardal awdurdod lleol. Cymysg fu'r ymatebion i'r cynigion. Croesawodd llawer o randdeiliaid y cynigion ond dywedodd rhanddeiliaid llywodraeth leol y byddent yn ffafrio dull cydweithredol mwy cydlynol a hyblyg o gydweithio yn seiliedig ar ddulliau presennol neu newydd o weithio'n rhanbarthol. Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, aeth y Llywodraeth Cymru newydd ati, felly, i drafod ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i ddod i gonsensws ynghylch y ffordd orau o gyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a chadarn y mae ein dinasyddion eu heisiau, eu hangen ac y maent yn eu haeddu.

2.11 Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd y *Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*[3]. Roedd y papur hwn yn seiliedig ar drafodaethau â llywodraeth leol ac roedd yn cynnwys cynigion i ddatblygu gweithio'n rhanbarthol gan awdurdodau lleol mewn modd gorfodol a systematig. Roedd y cynigion ar gyfer gweithio'n rhanbarthol wedi'u seilio'n gadarn ar y trefniadau oedd gan awdurdodau lleol ar waith eisoes, ac yn eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer mynd ati i weithio'n rhanbarthol ymhellach.

2.12 Mae llywodraeth leol wedi dweud ei bod yn cefnogi'n fras yr achos dros ddiwygio llywodraeth leol a mwy o weithio'n rhanbarthol – gan gyfeirio at y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf drwy ddulliau gwirfoddol, y bargeinion dinesig, er enghraifft. Fodd bynnag, mae llywodraeth leol wedi bod yn glir hefyd nad oes awydd i weld trefniadau cynhwysfawr ar gyfer gweithio'n rhanbarthol *gorfodol*, fel yr amlinellwyd yn y *Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad.* Yn hytrach, mae'n awyddus i negodi 'bargeinion rhanbarthol' gwirfoddol gyda Llywodraeth Cymru.

2.13 Er gwaethaf hyn, mae'n glir o'r trafodaethau rydym wedi bod yn eu cael[4] fod consensws nad yw parhau â'r *status quo* yn opsiwn. Mae cynrychiolwyr CLILC wedi dweud bod rhai gwasanaethau'n dirywio hyd nes eu bod bron â methu[5]. Mae hyn mewn amgylchedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, ar adeg pan fo'r cyllidebau a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn lleihau. O 2010-11 a 2017-18, bu cynnydd o dros 4 y cant yn y gwariant cyfredol (yn nhermau arian parod) ar wasanaethau lleol yng Nghymru. Yn Lloegr, bu gostyngiad o 12 y cant. Yn yr amgylchiadau hyn, nid

[3] https://beta.llyw.cymru/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad
[4] Atodiad A: Cyhoeddiadau ac ymgyngoriadau blaenorol sydd wedi cyfrannu at yr opsiynau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn, ac sy'n sail iddynt.
[5] http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-41557214

yw'n gynaliadwy parhau â 22 o awdurdodau sy'n aml yn gwneud yr un pethau mewn gwahanol ffyrdd 22 o weithiau. Nid yw'r materion hyn yn newydd, fel nad yw'r ffaith y bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol yn y dyfodol agos.

2.14 Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd gan y Comisiwn Williams, nid parhau i gynyddu'r gwariant yw'r ateb, hyd yn oed petai'n bosibl, ac mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hyn. Amlinellodd y Comisiwn Williams faterion pwysig ynghylch perfformiad, cadernid, gallu a chapasiti sydd heb ddiflannu dros y blynyddoedd diwethaf ac sydd, er gwaethaf ymdrechion gorau sawl un, wedi gwaethygu wrth i gyni cyllidol ddechrau dal gafael tra bo'r galw am wasanaethau yn parhau i gynyddu. Nid yw hyn o ganlyniad yn unig i bwysau oherwydd costau cynyddol, mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i drawsnewid gwasanaethau a gwneud pethau'n wahanol. Mae'r heriau hyn yn parhau ac yn debygol o wneud hynny ymhell i'r degawd nesaf.

**Llai o awdurdodau lleol, a'r rheini'n rhai mwy o faint, gyda'r pwerau a'r hyblygrwydd i wneud gwir wahaniaeth yn eu cymunedau**

2.15 Mae angen newid radical ar frys. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod rhaid inni'n awr ystyried opsiynau ar gyfer gwireddu hyn – ac mae angen i hyn gynnwys strwythur cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac awdurdodau lleol cryfach gyda phwerau a'r gallu i gyflawni ar ran eu cymunedau. Mae Atodiad A yn dangos sut rydyn ni wedi ystyried ystod o atebion dros y pedair blynedd diwethaf.

2.16 Gweithio'n rhanbarthol gorfodol a systematig oedd ein cynigion diweddaraf ond roedd hi mor ddiweddar â 7 Mawrth 2018 pan gadarnhaodd CLlLC nad oeddynt hwythau'n cefnogi gweithio'n rhanbarthol. Gweithio'n gydweithredol ar agenda ranbarthol a negodi 'bargeinion rhanbarthol' gyda Llywodraeth Cymru yw cynnig CLlLC. Rydym wedi ystyried yr awgrym hwn yn ofalus ac rydym yn cydnabod hefyd y camau cadarnhaol sydd wedi cael eu cymryd drwy'r Bargeinion Dinesig a Thwf. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus yr hanes hir o geisio hyrwyddo trefniadau gweithio'n gydweithredol mewn llywodraeth leol ar sail wirfoddol neu wedi'i negodi. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad Beecham a phrosiect Creu'r Cysylltiadau ac adroddiad Simpson a'r Compact, y rhoddwyd llawer iawn o ymdrech i mewn iddynt er mai bratiog ac anghyson oedd y manteision a ddeilliodd ohonynt. Mae gwneud cynnydd ar gydweithio mewn meysydd eraill ers hynny hefyd wedi bod yn her. Er enghraifft, araf oedd y gwaith o gyfuno cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol ar y dechrau ac nid oes unrhyw awydd i ddatblygu cynlluniau datblygu lleol ar y cyd.

2.17 Bydd gweithio'n rhanbarthol yn dal i gael rôl bwysig yn ein dull cyffredinol, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod hyn, ar ei ben ei hun, yn ateb digonol i'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu.

2.18 Yn ein barn ni, mae gan weithio'n rhanbarthol rôl ganolog i'w chwarae yn y meysydd hynny lle mae graddfa yn berthnasol i'r pwnc neu lle mae'n fanteisiol cynnwys mwy nag un awdurdod lleol. Dylid ystyried cymryd camau gweithredu effeithiol ar gynllunio defnydd tir strategol, datblygu economaidd a thrafnidiaeth ar draws ardaloedd mawr yng Nghymru, gyda'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn gosod y patrwm ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Mewn addysg, bydd y Consortia yn cadw cyfrifoldeb am wella ysgolion ac mae ganddynt botensial i wneud mwy. Mewn gwasanaethau cymdeithasol, bydd angen bwrw ati ar fwy o fyrder eto â'r dasg o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a gwireddu'r weledigaeth a amlinellir yn yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal. Mae hyn yn golygu y bydd gweithio'n rhanbarthol ar batrwm y byrddau iechyd ar gyfer gofal cymdeithasol yn parhau'n ganolog i'n dull ac mae wedi'i ddiogelu mewn deddfwriaeth.

2.19 Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ddigon i ymgymryd â'r heriau ariannol a gwasanaeth y mae'r model presennol o lywodraeth leol yn eu hwynebu – ac mae angen inni ystyried yr opsiynau ar gyfer yr hyn sy'n mynd ochr yn ochr â gweithio'n rhanbarthol parhaus.

2.20 Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod hi nawr yn amser ystyried o ddifrif creu llai o awdurdodau lleol, sy'n fwy o faint. Rydym wedi ystyried dulliau eraill, megis cynnal adolygiad hirdymor o'r ffiniau, awdurdodau lleol dwy haen, cyfuno awdurdodau neu dynnu'r rheolaeth leol dros rhai gwasanaethau yn ôl, yn ogystal â pharhau â'r trefniadau gweithio'n rhanbarthol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun argymhellion y Comisiwn Williams i fynd i'r afael â'r risgiau i lywodraethu a chyflawni mewn llywodraeth leol, o gapasiti isel, diffyg cadernid a chostau a gorbenion anghynaliadwy, nid oes yr un o'r opsiynau eraill hyn yn mynd i'r afael â'r heriau mewn ffordd mor gyflawn a chyson â dwyn awdurdodau lleol ynghyd. At hynny, byddai rhai o'r opsiynau hyn yn torri ar draws ein hamcan o gadw llywodraeth leol, yn gyffredinol, ar yr un ffurf a chyda'r un swyddogaethau ag hyn o bryd – neu hyd yn oed eu ymestyn.

2.21 Nid yw newid maint a nifer yr awdurdodau lleol yn ddiben ynddo'i hun. Darparu platfform i fynd ati i drawsnewid yn radical a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, a chadw swyddogaethau a chyfrifoldebau llywodraeth leol y derbyniwyd a chytunwyd yn eang eu bod orau i Gymru, yw'r diben. Bydd creu awdurdodau lleol newydd, sy'n gryfach ac yn fwy cynaliadwy, gyda threfniadau cyflenwi rhanbarthol priodol, yn adeiladu ar fanteision ein system bresennol ac yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir ganddynt ar yr un pryd.

2.22 Mae amryw o ddulliau y gellid eu mabwysiadu i greu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried yr opsiynau a ganlyn:

- Opsiwn 1 – Uno gwirfoddol
- Opsiwn 2 – Dull fesul cam, gyda'r awdurdodau fydd yn cytuno'n gynnar yn cael eu huno'n gyntaf cyn i eraill ddilyn
- Opsiwn 3 – Rhaglen uno gynhwysfawr a neilltuedig.

2.23 Yn achos pob un o'r opsiynau hyn, rydym yn meddwl ei bod hi'n angenrheidiol cael templed clir ar gyfer patrwm llywodraeth leol yn y dyfodol, y bydd rhaid i unrhyw achos unigol o uno awdurdodau fod yn gyson ag ef. Mae hyn yn bwysig i sicrhau nad ydym yn croesi ffiniau gwasanaethau eraill, er enghraifft ffiniau byrddau iechyd neu heddluoedd. Byddai hefyd yn rhoi eglurder wrth wneud penderfyniadau a chynllunio ar gyfer y tymor hir, sy'n bwysig i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â phrosiectau hirdymor a chynllunio gwasanaethau yn gadarn. Byddai hefyd yn golygu na fyddai ymdrech fawr yn cael ei gwastraffu ar ddatblygu grwpiau arfaethedig na fyddai'n cael eu cefnogi yn y pen draw. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig patrwm posibl i'w drafod ar gyfer y dyfodol felly.

2.24 Rydym hefyd yn cydnabod, pe buasem yn parhau ar y sail honno, y bydd yna gost ynghlwm wrth y broses o ddod ag awdurdodau lleol ynghyd – yn ogystal â manteision. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymchwilio i'r gefnogaeth y gellid ei chynnig i helpu gyda'r broses o uno a byddwn yn defnyddio'r broses ymgynghori i ddiweddaru'r dystiolaeth ar gostau a manteision i helpu i lywio penderfyniadau terfynol.

2.25 Yn olaf, rydym wedi cydnabod bob amser mai dim ond un rhan o'r ateb ar gyfer cryfhau llywodraeth leol yw strwythurau. Mae angen pwerau a hyblygrwydd ar awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau a chymryd camau i wella bywydau pobl. Mae angen hefyd i awdurdodau lleol fod yn seiliedig ar ddemocratiaeth leol iach lle mae gan gynghorwyr lleol rôl ystyrlon, sy'n cael ei deall a'i gwerthfawrogi gan y cyhoedd ac sy'n denu ystod eang o bobl i gymryd rhan. Mae'r ymgynghoriad, felly, yn ymchwilio i'r materion hyn ac fel rhan o becyn fydd ar gael i awdurdodau wedi iddynt benderfynu uno, pan fo gwneud hynny'n opsiwn iddynt.

## 3. Opsiynau ar gyfer cryfhau llywodraeth leol

3.1 Yn ogystal â gweithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, rydym wedi dod i'r casgliad, yn unol ag argymhellion y Comisiwn Williams, fod angen inni greu awdurdodau cryfach, mwy o faint er mwyn sicrhau bod rhai cynghorau yn ariannol hyfyw. Mae hyn hefyd yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy ac mae'n cynnig platfform ar gyfer trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi a chanlyniadau i bobl.

3.2 Rydym yn cydnabod bod hwn yn bwnc yr ydym wedi ymgynghori arno eisoes ac, yn gyffredinol, mae barn y prif awdurdodau lleol wedi bod yn groes i ymateb y gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach a'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae llywodraeth leol wedi parhau, ers inni ymgynghori ddiwethaf ar uno awdurdodau lleol, i dynnu sylw at y pwysau sylweddol y maent yn eu hwynebu ac mae wedi bod yn glir na ellir cynnal y sefyllfa bresennol. Fel Llywodraeth, ein cyfrifoldeb ni yw clywed y negeseuon hynny a dod o hyd i ffordd o fynd i'r afael â nhw. Nid oes gennym opsiwn credadwy arall, ar wahân i ddarparu mwy o arian nad oes gennym i'w gynnig. Rhaid inni gyfeirio felly at argymhellion y Comisiwn Williams annibynnol.

3.3 Mae gwahanol ffyrdd o gael awdurdodau cryfach, mwy o faint ac mae manteision ac anfanteision i bob un ohonynt. Mae manylion yr opsiynau hyn a'r ystyriaethau sy'n berthnasol i bob un ohonynt i'w gweld yn y bennod hon.

***Nodweddion cyffredin ar gyfer pob opsiwn***

3.4 Wrth ystyried yr opsiynau, rhaid inni fod yn glir y byddai rhai nodweddion yn gyffredin i'r broses o greu llai o awdurdodau, mwy o faint pa bynnag opsiwn a ddewisir. Mae'r nodweddion hyn fel a ganlyn:

- Patrwm clir ar gyfer y dyfodol y bydd rhaid i unrhyw achos o uno fod yn gyson ag ef i leihau ansicrwydd – trafodir hyn ym mhennod 4
- Proses strwythuredig, sy'n cael ei harwain yn ddemocrataidd i sicrhau bod yr effaith ar wasanaethau, dinasyddion a'r gweithlu presennol yn cael ei rheoli ac sy'n rhoi'r awdurdodau newydd yn y sefyllfa orau i ddechrau gweithio ar y diwrnod breinio - trafodir hyn ym mhennod 5.
- Cefnogaeth a chymorth priodol gyda'r broses o ddwyn awdurdodau ynghyd a mwy o bwerau a rhyddid a chyfleoedd eraill i'r awdurdodau newydd – trafodir hyn ym mhennod 6.
- Ar wahân, byddai angen darpariaeth hefyd, fel sydd i'w chael ar hyn o bryd, i ymdrin â methiant difrifol iawn mewn awdurdod lleol, na ellir delio ag ef gyda chefnogaeth ac ymyriadau o fath arall. Pwerau argyfwng fyddai'r rhain i uno'r awdurdod mewn trafferthion dybryd ag awdurdod arall neu

awdurdodau eraill, i'w defnyddio dim ond pan fo pob opsiwn arall wedi methu.

### *Opsiwn 1 - Uno gwirfoddol*

3.5 O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth i alluogi awdurdodau lleol gyflwyno cynigion i uno pe byddent yn gyson â phatrwm penodedig a oedd yn diffinio'r ardaloedd awdurdod newydd. Er enghraifft, lle byddai dau awdurdod lleol presennol mewn ardal awdurdod lleol newydd arfaethedig eisiau uno, ond ni fyddai'r awdurdod arall neu awdurdodau eraill yn dymuno gwneud hynny, rydym yn meddwl bod achos dros alluogi'r awdurdodau ewyllysgar i barhau ar eu pennau eu hunain.

3.6 Mae'r dull hwn yn fanteisiol oherwydd ei fod yn galluogi llywodraeth leol i benderfynu pa mor gyflym y bydd yn symud at gydgrynhoi awdurdodau i greu rhai mwy o faint. Byddai'n golygu bod modd i gynigion gael eu cyflwyno pan fyddai'r cymorth angenrheidiol ar waith a byddai'n sicrhau na fyddai newidiadau'n cael eu gwneud 'yn groes i'r graen'. Dylai hyn olygu bod y pontio i'r drefn newydd yn fwy didrafferth a bod llai o risg bod egni yn cael ei wastraffu yn gwrthwynebu'r broses. Lle byddai newidiadau yn cael eu gwneud, byddai capasiti yn cynyddu'n gyffredinol a byddai hefyd yn arwain at arbedion dros amser. Byddai hefyd yn golygu bod awdurdodau sydd wedi'u huno yn gallu cael pwerau a hyblygrwydd newydd yn ogystal â chyfleoedd eraill a amlinellir ym mhennod 6.

3.7 Anfanteision yr opsiwn hwn yw nad oes sicrwydd y bydd unrhyw beth yn newid – a lle na fyddai unrhyw newid, byddai'r pwysau ariannol ac ar wasanaethau yn parhau i gynyddu. Ni fyddai hyn yn cyflawni'r arbedion a'r manteision ehangach a fyddai'n dod o fabwysiadu dull mwy cynhwysfawr. Byddai'r ansicrwydd i'r gweithlu llywodraeth leol ac i ddinasyddion yn parhau, o bosibl am gyfnod amhenodol. Byddai'n bosibl hefyd i awdurdod 'rhwystro' atal ymgais i uno, ac ni fyddai opsiwn arall ar gael i'r awdurdod arall neu'r awdurdodau eraill. Byddai'n golygu bod newidiadau'n parhau mewn gwahanol rannau o Gymru dros gyfnod estynedig iawn o bosibl, a gallai hynny effeithio ar gyflawni blaenoriaethau eraill. Byddai hefyd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad parhaus i gefnogi'r broses a byddai llai o gyfle i symud y pwyslais i gefnogi'r broses o drawsnewid. Byddai'n anodd hefyd dod o hyd i atebion 'unwaith i Gymru' i heriau cyffredin. Byddai, o bosibl, yn arwain at fwy o wahaniaethau yn y model o lywodraeth leol yng Nghymru, gydag amrywiaeth ehangach o ran maint a phwerau awdurdodau lleol.

3.8 Byddai hefyd yn bosibl gwneud darpariaeth naill ai ar gyfer uno mwy cynhwysfawr yn y dyfodol, a fyddai'n destun ymgynghori pellach, neu gynllunio

ar y sail y gallai achosion o uno cynhwysfawr ddilyn y gellid darparu ar eu cyfer mewn Bil arall yn y dyfodol.

3.9 Rydym wedi ystyried a fyddai patrwm penodedig ar gyfer y dyfodol yn ddymunol mewn egwyddor yn achos yr opsiwn hwn. Y ddadl o blaid peidio â chael patrwm dynodedig ar gyfer y dyfodol yw'r hyblygrwydd ychwanegol y byddai hynny'n ei gynnig i awdurdodau lleol ddod o hyd i bartner ewyllysgar a symud ymlaen. Mae'r sail resymegol dros gael patrwm dynodedig ar gyfer y dyfodol wedi'i hegluro ym mhennod 4 ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau cysondeb â gwasanaethau cyhoeddus eraill, rhoi sicrwydd i staff ac osgoi gwneud gwaith yn ofer. Ystyriom y broses uno gwirfoddol yn 2014/15. Yr adeg honno, roedd diffyg eglurder ynglŷn â'r map y dymunwyd ei weld yn y dyfodol yn ffactor bwysig o safbwynt y cynigion a gyflwynwyd na chafodd eu derbyn yn y pen draw. Ni fyddai unrhyw un eisiau mynd trwy brofiad tebyg eto ac, at ei gilydd, rydym yn meddwl bod yr achos dros amlinellu patrwm ar gyfer y dyfodol yn drech na'r achos dros ganiatáu mwy o hyblygrwydd.

***Opsiwn 2 - Dull fesul cam, gyda'r awdurdodau fydd yn cytuno'n gynnar yn cael eu huno'n gyntaf cyn i eraill ddilyn***

3.10 O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol uno yn 2026, yn unol â phatrwm penodedig ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i ddewis symud yn gyflymach a chytuno mewn da bryd i awdurdodau lleol gael eu breinio yn 2022.

3.11 Manteision y dull hwn yw ei fod yn cynnig ateb cynhwysfawr a phwynt terfyn clir pan fyddai'r strwythurau newydd yn eu lle. Mae'n cynnig hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol ddewis symud yn gyflymach tuag at gydgrynhoi yn awdurdodau mwy o faint. Pan fydd awdurdodau yn dewis symud yn gyflymach, byddai hyn yn cael ei wneud gyda'r gefnogaeth angenrheidiol a ddylai olygu bod y cyfnod pontio o'r naill drefniant i'r llall yn mynd rhagddo'n ddidrafferth. Er bod hyn yn golygu y gallai'r cyfnod pontio hwnnw gael ei ymestyn o chwe blynedd, byddai capasiti cyffredinol yn cynyddu a byddai arbedion yn cael eu gwneud erbyn 2026. Byddai hyn yn golygu llai o ansicrwydd i'r gweithlu a dinasyddion o'i gymharu â dull cwbl wirfoddol. Byddai hefyd yn caniatáu i'r rheini a fyddai'n cytuno'n gynnar i uno gael mynediad at bwerau a hyblygrwydd newydd a chyfleoedd eraill a drafodir ym mhennod 6.

3.12 Anfanteision yr opsiwn hwn yw bod posibilrwydd o oedi cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud, a byddai'r pwysau ariannol ac ar wasanaethau yn parhau i gynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Byddai oedi hefyd o safbwynt yr arbedion a'r manteision ehangach, ond byddai'r costau hefyd yn cael eu hysgwyddo dros gyfnod hwy. O ganlyniad, gallai awdurdod 'rhwystro' atal

ymgais i uno'n gynnar ond byddai hyn yn cael ei ddatrys yn 2026. O dan yr opsiwn hwn, byddai newid yn digwydd mewn gwahanol rannau o Gymru dros gyfnod estynedig. Gallai hyn effeithio ar gyflawni blaenoriaethau eraill, ond byddai hefyd bwynt terfyn clir i'r dull hwn. Byddai'r cyfnod y byddai angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r broses yn hwy. Byddai'n caniatáu, dros gyfnod o bedair blynedd, rhywfaint o wahaniaeth o ran maint a phwerau awdurdodau lleol.

***Opsiwn 3 - Rhaglen uno gynhwysfawr a neilltuedig***

3.13 Byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth o dan yr opsiwn hwn i awdurdodau lleol uno yn 2022, yn unol â phatrwm penodedig ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol.

3.14 Manteision y dull hwn yw mai dyma'r cynnig sy'n mynd ati gyflymaf i ymateb i'r her gynaliadwyedd ac o bosibl hefyd mai hwn yw'r opsiwn sy'n darparu'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o gyrraedd y patrwm ar gyfer y dyfodol. Mae'n cynnig ateb unigol, clir ac mae'n torri i'r eithaf ar hyd y cyfnod o newid. Mae'n golygu bod modd ymateb yn amserol i'r pwysau ariannol ac ar wasanaethau a wynebir gan awdurdodau lleol. Byddai capasiti'n cynyddu a byddai arbedion yn codi yn gyflymach nag o dan yr opsiynau eraill. Dyma'r opsiwn sy'n cynnig y sicrwydd gorau i'r gweithlu ac i ddinasyddion. Nid yw'n caniatáu i awdurdod 'rhwystro' atal cynnydd, ond gallai'r broses fod yn fwy heriol pe byddai rhai awdurdodau'n gwrthwynebu newid. Mae'n torri i'r eithaf ar y cyfnod sydd gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth ar gyfer y broses a byddai'n golygu hefyd fod modd newid y ffocws a chanolbwyntio ar drawsnewid. Byddai hefyd yn golygu bod mwy o gyfle i ddod o hyd i atebion 'unwaith i Gymru' i heriau cyffredin. Mae'n caniatáu i bob awdurdod gael mynediad at bwerau a hyblygrwydd newydd a chyfleoedd eraill a amlinellir ym mhennod 6 ac yn golygu y byddai llai o wahaniaeth o ran maint a phwerau awdurdodau.

3.15 Anfanteision y dull hwn yw nad yw'n rhoi dewis i lywodraeth leol o ran pa mor gyflym y mae'n dymuno newid. Mae'n golygu y byddai uno'n digwydd heb ystyried faint o gefnogaeth fyddai mewn awdurdod lleol i wneud hynny. Mae'n debygol y bydd gwrthwynebiad mewn rhai lleoedd a bydd y broses drawsnewid yn amrywio o un ardal i un arall. Lle ceir gwrthwynebiad, mae yna berygl y bydd ymdrechion i geisio gwrthwynebu'r newid yn amharu ar gyflenwi gwasanaethau.

**Pennu costau newid**

3.16 Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol yn wynebu heriau cynyddol. Mae cyllidebau'n lleihau, y galw'n cynyddu ac mae'n anodd recriwtio a chadw gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol. Pe byddai mwy o amser, mwy o gapasiti, a chydag amcanion a rennir, gellid cyflawni mwy

gyda'r arian sydd ar gael – mae creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint, yn cynnig cyfle i wneud hynny'n union ar ran y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

3.17 Nid diystyru realiti cyni cyllidol yw hyn. Mae'n nodwedd sy'n parhau i ddiffinio gwariant cyhoeddus. Mae'n effeithio ar ein gallu fel Llywodraeth i ddarparu sicrwydd ariannol ar gyfer y tymor hwy i wasanaethau cyhoeddus. Mae Cyllideb Derfynol Cymru ar gyfer 2018-19, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi'n glir yr heriau yr ydyn ni oll yn eu hwynebu wrth gyflenwi gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Wrth gyflawni'r arbedion sydd ar gael drwy ddwyn awdurdodau lleol ynghyd, bydd y cyllid sydd ar gael i lywodraeth leol yn mynd ymhellach a bydd modd cyflenwi mwy.

3.18 Roedd cyni cyllidol yn her hyd yn oed pan gyhoeddodd y Comisiwn Williams ei adroddiad yn 2014. Yn y cyd-destun hwn, cafwyd cydnabyddiaeth gan y Comisiwn Williams y gallai newid strwythurol fod yn gostus ac yn drafferthus. Fodd bynnag, daeth y Comisiwn i'r casgliad hefyd y byddai'r gost o wneud dim llawer uwch ac y byddai gwerth y cyfleoedd a gollir yn uwch eto. Roedd y Comisiwn yn glir: nid oedd y strwythur presennol o 22 o awdurdodau lleol yn gynaliadwy a byddai'r arbedion dros y tymor hir yn drech na'r costau yn y tymor byr ymhen dim. Roedd y Comisiwn hefyd yn glir ei fod o’r farn y byddai modd mynd ati’n amserol i greu llai o awdurdodau, sy’n fwy eu maint, ac mai hwnnw oedd yr opsiwn a fyddai’n amharu lleiaf.

3.19 Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)[6] a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft yn manylu ar gostau a manteision posibl uno awdurdodau lleol. Yn yr RIA, dywedwyd y byddai uno'r 22 o awdurdodau lleol presennol yn tua wyth neu ddeuddeg ardal awdurdod lleol yn costio rhwng £97m a £246m, ond amcangyfrifwyd y byddai arbedion yn deillio o wneud hyn o rhwng £430m o 2020-21 a £915m o 2029-30.

3.20 Rydym yn derbyn, ers i'r RIA gael ei gyhoeddi, ac yn wyneb cyni cyllidol parhaus, nad yw awdurdodau lleol wedi sefyll yn eu hunfan. Mae'n bosibl bod rhai o'r manteision sy'n gysylltiedig â chreu llai o awdurdodau, mwy o faint, fel lleihau nifer y rheolwyr a gostwng costau staff, eisoes wedi cael eu gwireddu (ac mae hyn o bosibl yn wir hefyd yn achos y costau untro cysylltiedig). Rydym o'r farn, fodd bynnag, fod manteision ariannol sylweddol i'w cyflawni o hyd.

3.21 Mae gan ein cynigion oblygiadau i'r berthynas rhwng sefydliadau hefyd. Nododd y Comisiwn Williams fwy na 900 o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru a dywedwyd hefyd fod gorbenion sylweddol yn sgil cymhlethdod, dyblygu gwaith a baich gweinyddol sylweddol. Yn ei adroddiad, dywedodd y Comisiwn y byddai llai o awdurdodau lleol yn golygu bod angen llai o ryngweithio ac, o ganlyniad, byddai awdurdodau lleol yn gwneud arbedion

[6] https://beta.llyw.cymru/bil-llywodraeth-leol-cymru-drafft-ar-memorandwm-esboniadol

sylweddol.  Byddai hyn hefyd yn golygu bod modd treulio mwy o amser ar gyflenwi a gwella gwasanaethau yn hytrach na rheoli perthynas rhwng sefydliadau.

3.22 Byddwn yn llunio asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru gyda chostau a manteision wedi'u diwygio i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn i benderfynu ar gostau ac arbedion cyfredol ar gyfer pob un opsiwn i lywio'r penderfyniad terfynol ynghylch sut i symud ymlaen.

**Cwestiwn Ymgynghori 1**

Yn y bennod flaenorol, dywedom unwaith eto ein bod wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, gan gydnabod hefyd fod angen gwneud newidiadau pellach i gefnogi hyn. Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno'r opsiynau cyffredinol ar gyfer symud tuag at lai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, ac rydym yn crynhoi nodweddion y broses a fyddai'n gyffredin i bob opsiwn.

a) Pa gamau ymarferol allai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wneud y trefniadau gweithio'n rhanbarthol presennol yn haws ac yn fwy effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'r consortia addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Dinas a Thwf?

b) Beth yw eich barn chi am yr elfennau cyffredin i'r prosesau uno yr ydym yn eu cyflwyno yn yr adran hon?

c) Beth yw eich barn chi am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym ar gyfer creu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint?

d) A oes unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried ar gyfer creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint?

e) A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â chost, manteision ac arbedion pob opsiwn a allai helpu i lywio'r penderfyniad? Os oes, rhowch fanylion.

## 4. Dod i gytundeb ar batrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol

4.1 Ar gyfer pob un o'r opsiynau yr ymchwilir iddo yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn meddwl ei fod yn bwysig cael templed clir ar gyfer patrwm llywodraeth leol yn y dyfodol y bydd rhaid i unrhyw achos o uno fod yn gyson ag ef. Bydd hyn yn:

- sicrhau cysondeb â'r ffiniau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu o fewn iddynt, er enghraifft Byrddau Iechyd Lleol
- rhoi sicrwydd ar gyfer cynllunio hirdymor sy'n bwysig i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn gallu cael eu gwneud mewn perthynas â phrosiectau a chynllunio gwasanaethau
- osgoi gwneud ymdrech fawr yn ofer i ddatblygu grwpiau arfaethedig na fyddai'n cael eu cefnogi yn y pen draw.

4.2 Defnyddiwyd nifer o ddulliau cyn hyn i bennu patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol[7]. Mae'r rhain wedi cynnwys sawl ymdrech i ddiffinio map o awdurdodau newydd posibl, gan gynnwys yn adroddiad y Comisiwn Williams (a oedd yn cynnig rhwng deg a deuddeg awdurdod lleol) ac yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft[8] (a oedd yn cynnig wyth neu naw awdurdod lleol).

4.3 Wrth gyflwyno'r dull yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol a barn rhanddeiliaid, yn arbennig mewn perthynas â'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod cynrychiolaeth ac atebolrwydd clir yn bwysig a'i fod yn hanfodol, mewn unrhyw gynnig i leihau nifer yr awdurdodau lleol, ein bod yn sicrhau'r rhain ynghyd ag arbedion maint economaidd a chymdeithasol.

4.4 O ran materion daearyddol penodol, dywedodd y rhanddeiliaid wrthym mai uno'r chwe phrif awdurdod lleol yn y Gogledd yn dri awdurdod newydd fyddai'r ffordd orau o adlewyrchu cryfderau diwylliannol ac economaidd yr ardaloedd cyfansoddol. Roedd ymgynghoriad cynharach ar Ddiwygio Llywodraeth Leol ym mis Hydref 2014 wedi cynnig rhannu ardal y De-ddwyrain yn ddwy: byddai Casnewydd a Sir Fynwy yn cael eu dwyn ynghyd, a byddai Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent yn dod yn un ardal awdurdod lleol. Cafwyd ymatebion a oedd yn mynegi amheuon am yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft, dywedodd rhanddeiliaid wrthym hefyd eu bod o'r farn y byddai dod â phum awdurdod lleol yn y De-ddwyrain ynghyd fel un

[7] Atodiad A: Cyhoeddiadau ac ymgyngoriadau blaenorol sydd wedi cyfrannu at yr opsiynau a gyflwynir yn y ymgynghoriad hwn, ac sy'n sail iddynt.
[8] Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015.

yn golygu y gallai'r un awdurdod hwn gael anhawster wrth geisio diwallu anghenion lleol yn effeithiol, yn ogystal â chynnal atebolrwydd democrataidd.

4.5 Rydym wedi gwrando ar hyn. Mae'r dull yn yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno strwythur posibl ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol sy'n seiliedig ar ymatebion i ymgyngoriadau blaenorol gan gynnwys cynnig ffordd arall o grwpio awdurdodau yn y De-ddwyrain. Bydd modd rhoi’r dull hwn ar brawf drwy ymgynghori.

4.6 Mae llawer o heriau yn ymwneud â dwyn awdurdodau lleol ynghyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- materion yn ymwneud â staffio, gan gynnwys cyflogau, strwythurau, polisïau a phensiynau
- cysoni systemau a phrosesau, gan gynnwys rhannu data a TGCh
- ad-drefnu a thrawsnewid gwasanaethau: gan gynnwys dealltwriaeth o gapasiti a gallu
- materion y gweithlu, gan gynnwys recriwtio a chadw staff.

4.7 Rydym yn cydnabod yr heriau hyn ac yn eu hystyried yn fanylach ym mhennod 6. Fodd bynnag, rydym yn credu bod modd eu rheoli, ac ni ddylent ein hatal rhag symud ymlaen â'r cynigion hyn.

4.8 Rydym wedi cadw nifer o egwyddorion mewn cof wrth ystyried sut i ddatblygu ffordd ymlaen ar gyfer creu llai o awdurdodau, a’r rheini’n rhai mwy o faint. Mae’r rhain yn cynnwys sut y mae unrhyw ardaloedd awdurdod newydd yn ymwneud â’u cymunedau ac yn eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau, sicrhau bod atebolrwydd democrataidd yn cael ei gynnal, creu awdurdodau newydd sy’n ddigon o faint i’w grymuso i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a gwneud llywodraeth leol yn gryf ac yn gynaliadwy i’r dyfodol. Mae ein cynigion hefyd yn cyd-fynd â’r bwriad a amlinellir yn argymhellion y Comisiwn Williams i sicrhau bod modd newid mor gyflym â phosibl, gan amharu cyn lleied ag y bo modd ar wasanaethau’r rheng flaen.

4.9 Yn seiliedig ar hyn, rydym wedi cynnig ardaloedd awdurdod newydd dangosol i’w trafod, ac maent i’w gweld yn y tabl isod.

| Awdurdodau lleol presennol | Ardal newydd | Awdurdodau lleol presennol | Ardal newydd |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1 | Pen-y-bont ar Ogwr | 7 |
| Gwynedd | | Rhondda Cynon Taf | |
| Conwy | 2 | Merthyr Tudful | |
| Sir Ddinbych | | Bro Morgannwg | 8 |
| Sir y Fflint | 3 | Caerdydd | |
| Wrecsam | | Casnewydd | 9 |
| Powys | 4 | Caerffili | |
| Ceredigion | 5 | Torfaen | 10 |
| Sir Benfro | | Blaenau Gwent | |
| Sir Gaerfyrddin | | Sir Fynwy | |
| Abertawe | 6 | | |
| Castell-nedd Port Talbot | | | |

4.10 Mae'r grwpiau hyn yn gyson â ffiniau'r byrddau iechyd presennol, ar wahân i Ben-y-bont ar Ogwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch cefnogi gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr drwy newid ffiniau'r bwrdd iechyd fel bod penderfyniadau'n gyson ar draws y maes iechyd a llywodraeth leol. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 7 Mawrth 2018. Mae'r dull yn gyson â'r hyn yr ymgynghorwyd arno ac mae'n seiliedig ar yr un egwyddorion o sicrhau gwasanaethau cyhoeddus symlach, mwy effeithiol sy'n cyd-fynd yn well â'r partneriaethau rhanbarthol presennol.

**Cydweithio**

4.11 Fel a ddywedwyd eisoes, rydym yn cydnabod nad yw awdurdodau lleol wedi aros yn eu hunfan. Rydym yn sylweddoli bod rhai trefniadau cydweithio ar waith eisoes. Er nad yw'r dulliau hyn yn gyson ledled Cymru, maent wedi dangos bod ad-drefnu gwasanaethau a màs critigol yn gallu helpu i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu heddiw, ac y byddwn yn eu hwynebu yn y blynyddoedd sydd i ddod, wrth gyflenwi gwasanaethau.

4.12 Mae'n wir hefyd, mewn nifer o feysydd gwasanaeth, mai dim ond drwy gydweithio ar raddfa lawer mwy na'n hawdurdodau newydd arfaethedig y gellir gwireddu manteision i bobl, busnesau a phartneriaid eraill y sector cyhoeddus a chynnal gwasanaethau. Yn y meysydd hynny, dylid parhau i weithio'n rhanbarthol neu gydweithio. Byddai dwyn awdurdodau ynghyd yn gyfle i symleiddio'r trefniadau rhanbarthol hyn. Bydd llai o gynrychiolwyr o gwmpas y bwrdd trafod a bydd mwy o gysondeb o safbwynt eu synnwyr o bwrpas. Dylai hyn olygu bodd modd gwneud penderfyniadau yn gyflymach, bod atebolrwydd yn fwy eglur a bod gwasanaethau gwell ar gael i'r cyhoedd.

4.13 Yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*[9], rydym yn ymrwymo i fodel datblygu economaidd gyda phwyslais mwy rhanbarthol, a chaiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn *y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*[10]*.* Ein nod yw creu rhanbarthau cynhyrchiol a sicrhau twf sy'n fwy cytbwys drwy fodel o ddatblygu economaidd ag iddo bwyslais rhanbarthol, sy'n cydnabod bod gwahanol ardaloedd yng Nghymru yn gwahaniaethu wrth ei gilydd o ran eu proffiliau economaidd a'u llwybrau i fwy o ffyniant. Bydd angen i'r awdurdodau lleol gymryd rhan weithredol er mwyn llunio model o ddatblygu economaidd ag iddo bwyslais mwy rhanbarthol. Yn aml, mae awdurdodau eisoes yn gweithio gyda'i gilydd mewn ardal ddaearyddol ehangach, er enghraifft mewn rhaglenni ardaloedd adfywio, y Bargeinion Dinesig, y Bargeinion Twf a Phartneriaethau Tyfu Canolbarth Cymru. Rydym yn disgwyl i'r model rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd barhau yn y Gogledd, y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Canolbarth, a bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod gan bobl gymaint o gyfleoedd â phosibl lle bynnag y bônt yn byw. Yn ogystal â hyn, drwy ddatblygu perthynas weithio effeithiol â chynghorau yn Lloegr ac eraill, bydd gan awdurdodau lleol Cymru sy'n fwy o faint ac sy'n gryfach fwy o gapasiti hefyd i fanteisio ar gyfleoedd trawsffiniol er budd Cymru.

4.14 Mae tabl 1 yn Atodiad B yn dangos sut y mae'r ardaloedd awdurdod lleol arfaethedig yn alinio â'r trefniadau rhanbarthol presennol. Rydym yn cydnabod y gallai ffiniau bargeinion dinesig sydd wedi'u sefydlu eisoes neu fargeinion twf newydd gael eu heffeithio gan ein dull o fynd ati i greu awdurdodau newydd. Drwy gael llai o awdurdodau, bydd cyfle i symleiddio trefniadau gweithio'n rhanbarthol a byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu'r trefniadau rhanbarthol hyn wrth inni adeiladu'r awdurdodau newydd.

4.15 Mae tabl 1 yn Atodiad B hefyd yn dangos sut y bydd yr awdurdodau lleol arfaethedig yn alinio â'r gwasanaethau awdurdod lleol sydd eisoes yn gweithio ar sail ranbarthol a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus. Mae hyn yn dangos yn glir bod potensial ar gyfer creu awdurdodau lleol newydd er mwyn lleihau cymhlethdod gweithio'n rhanbarthol a gweithio ar draws y sector cyhoeddus. Bydd y manteision hyn, gan gynnwys y lleihad yn y baich gweinyddol a galwadau ar amser staff a chynghorwyr, yn ymestyn y tu hwnt i awdurdodau lleol, i'w partneriaid.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

4.16 Mae'r cyfle i symleiddio trefniadau gweithio ar draws y sector cyhoeddus hefyd yn berthnasol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae cyrff y sector cyhoeddus sy'n eistedd ar fwy nag un bwrdd wedi galw'n gyson am lai o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mewn rhai achosion, yng Nghonwy a Sir

[9] http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
[10] http://llyw.cymru/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf

Ddinbych, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, Sir Fôn a Gwynedd, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd eisoes yn weithredol yn adlewyrchu, i raddau helaeth, yr ardaloedd awdurdod lleol newydd a gynigir. Mewn achosion eraill, byddai'n gwneud synnwyr i symud i'r patrwm newydd yn gynnar, ar adeg briodol cyn i'r awdurdodau newydd ddod i fodolaeth. Ein bwriad fyddai sicrhau bod y pontio i'r ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Lleol mor ddidrafferth â phosibl, er mwyn galluogi'r byrddau i ganolbwyntio ar wneud gwir wahaniaeth yn eu hardaloedd.

4.17 Byddai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal i allu gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar feysydd sydd o ddiddordeb cyffredin, a byddent yn cael eu hannog i wneud hynny. Dylai awdurdodau lleol mwy o faint sy'n gweithio fel rhan o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mwy o faint hefyd gefnogi gweithio ochr yn ochr yn effeithiol gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol sy'n gweithredu ar batrwm y byrddau iechyd.

**Nodweddion yr ardaloedd newydd**

4.18 Nid yw'n fwriad gennym bennu'r maint 'delfrydol' ar gyfer awdurdod lleol cymhleth, democrataidd ag iddo fwy nag un swyddogaeth. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bosibl cael cydbwysedd gwell a fydd yn helpu i sicrhau'r màs critigol a'r raddfa sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y dyfodol.

4.19 Mae Atodiad B yn cynnwys data ystadegol ar natur arfaethedig yr ardaloedd newydd hyn.

**Poblogaeth**

4.20 Bydd y boblogaeth gyfartalog yn yr awdurdodau newydd, fel sy'n cael ei dangos yn nhabl 2 yn Atodiad B, ychydig dros 311,000. Bydd rhywfaint o amrywiaeth, yn enwedig rhwng yr ardaloedd mwy trefol (489,931 ym Mro Morgannwg a Chaerdydd, a 441,293 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) a'r ardaloedd mwy gwledig (132,160 ym Mhowys a 193,350 yn Ynys Môn a Gwynedd). Mae'r gwahaniaethau hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y data dwysedd poblogaeth yn nhabl 3 yn Atodiad B. Fodd bynnag, mae hyd yn oed yr awdurdodau hynny sydd â dwysedd poblogaeth uchel yn wynebu heriau wrth gyflenwi gwasanaethau i boblogaethau gwledig sydd ar wasgar, er nid i'r un graddau. Yn yr un modd, mae gan ardaloedd mwy gwledig ardaloedd trefol hefyd sydd â chrynodiad uwch o bobl.

4.21 Nid yw'r ddynameg hon yn newydd i awdurdodau lleol. Ond mae graddfa'r ardaloedd arfaethedig yn rhoi'r cyfle i fynd ati mewn ffordd fwy arloesol i gyflenwi gwasanaethau ac mae'n golygu eu bod mewn sefyllfa well i ddenu a

chadw'r sgiliau sydd eu hangen i'w cyflenwi. Nid yw'r cyfleoedd hyn bob amser ar gael yn ardaloedd gwasanaeth llai yr awdurdodau lleol presennol.

4.22 Mae tabl 4 yn Atodiad B yn rhoi amcangyfrif o oedrannau cyfartalog y boblogaeth yn yr ardaloedd awdurdod newydd. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn ein helpu i nodi'r heriau posibl i wasanaethau yn yr ardaloedd awdurdod newydd. Mae cyfran y bobl ifanc 0-15 oed yn eithaf tebyg yn yr ardaloedd arfaethedig, yn agos iawn at gyfartaledd Cymru o 17.8%.[11] Mae mwy o wahaniaeth rhwng cyfran yr ystod oedran 16-64 a chyfartaledd Cymru o 61%. Mae'r ardaloedd arfaethedig hynny sydd â dwysedd poblogaeth is yn dangos cyfran is na'r cyfartaledd o bobl 16-64 oed, tra bo gan y rheini sydd â dwysedd poblogaeth uwch gyfran rywfaint yn uwch. Y gwrthwyneb sy'n wir am y grŵp 65 oed a throsodd, gan fod yr ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth is yn uwch na chyfartaledd Cymru o 20%.

4.23 O ran nifer yr aelwydydd, byddai eu maint cyfartalog yn yr ardaloedd awdurdod newydd tua'r un fath, gyda chyfartaled o 2.2 i 2.3 unigolyn fesul aelwyd, fel a welir yn nhabl 5 yn Atodiad B. Mae canran yr aelwydydd un person fel cyfran o'r holl aelwydydd yn amrywio.

4.24 Powys yw'r allanolyn clir o ran y data poblogaeth. Rydym wedi ystyried llawer ynghylch sut i ddelio â Phowys wrth ddatblygu'r patrwm posibl hwn. Fel y nodwyd yn adroddiad Williams, mae Powys ymysg yr awdurdodau unedol mwyaf (o ran ardal ddaearyddol) a mwyaf prin ei boblogaeth yn y DU. Mae hyn yn creu patrymau neilltuol o ran y galw a'r heriau wrth gyflenwi gwasanaethau, sy'n ddadl dros ei gadw'n awdurdod ar wahân. Fodd bynnag, rydym yn agored i awgrymiadau ar gyfer dull gwahanol.

**Cwestiwn Ymgynghori 2**

Mae'r adran hon wedi egluro'r angen am eglurder ar y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a'r ystod o ffactorau y dylid ei hystyried wrth benderfynu ar ffurf newydd. Mae'n cynnig patrwm posibl ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, y gellid ei gyflawni drwy bob un o'r opsiynau a drafodwyd yn y bennod flaenorol.

a) Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y patrwm ar gyfer llywodraeth leol y dyfodol?

b) Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym i lywio ein syniadau? A fyddech chi'n ychwanegu ffactorau eraill neu'n newid unrhyw ffactor?

c) Beth yw eich barn chi am yr ardaloedd newydd a awgrymir yn yr adran hon?

[11] Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran, StatsCymru

d) A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ac, os felly, pa wybodaeth sydd gennych i gefnogi'r rhain fel dewis arall?

e) Oes yna unrhyw ddulliau eraill y dylem eu defnyddio i symleiddio trefniadau cydweithio ar lefel ranbarthol a rhwng cyrff cyhoeddus â'i gilydd yn yr ardaloedd awdurdod newydd? Os oes, beth ydyn nhw?

## 5. Proses glir sy'n cael ei harwain yn ddemocrataidd

**Proses bontio**

5.1 Mae'n hanfodol bod trefniadau pontio a fydd wedi'u cynllunio'n ofalus yn cael eu rhoi ar waith er mwyn pontio o'r naill strwythur llywodraeth leol i'r llall. Y bwriad yw sefydlu Pwyllgor Pontio ar gyfer pob awdurdod newydd a'i waith fydd braenaru'r tir ar gyfer yr Awdurdod Cysgodol drwy gasglu gwybodaeth, sefydlu llinellau sylfaen a dechrau dod â systemau a staff ynghyd.

5.2 Byddai'r Pwyllgor Pontio yn cynnwys o leiaf pum aelod gweithredol o bob un o'r awdurdodau lleol a fydd yn dod ynghyd i greu'r awdurdod newydd a rhaid i Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Gyllid pob awdurdod cyfansoddol fod ymhlith yr aelodau hynny. Prif rôl y Pwyllgor Pontio fyddai hwyluso pontio didrafferth a sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo'n raddol i'r Awdurdod Cysgodol wedi iddo gael ei ethol.

5.3 Fodd bynnag, yn amodol ar ystyried y ffordd y maent yn gweithredu, gallai'r Pwyllgor Pontio gael rôl hefyd yng ngweithredu'r Gyfundrefn Cyfyngu ar Drafodiadau Ariannol yr ydym yn cynnig ei sefydlu fel rhan o'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Byddai'n union fel yr hyn y darparwyd ar ei gyfer gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015.

5.4 Byddai'r gyfundrefn drafodiadau yn helpu i hybu'r defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus yn ystod y cyfnod pontio. Mae'n bosibl y bydd angen barn y Pwyllgor Pontio perthnasol neu gydsyniad y person dynodedig fel Gweinidogion Cymru eu hunain neu'r Awdurdod Cysgodol perthnasol, wedi i'r corff hwnnw gael ei ethol, cyn i awdurdod sy'n uno ag awdurdod arall neu awdurdodau eraill ymgymryd â thrafodiadau ariannol penodol neu benodi uwch-swyddogion. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol ac yn lansio ymgynghoriad yn hwyrach yn ystod y flwyddyn hon ar ganllawiau statudol ac ar arfer swyddogaethau Pwyllgorau Pontio.

5.5 Rydym yn bwriadu cynnwys ein cynigion terfynol ar gyfer uno awdurdodau fel rhan o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) i'w cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr hydref eleni.

5.6 Byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau i sefydlu Pwyllgorau Pontio statudol mor gynnar â phosibl. Byddai'r amseru ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau hyn yn dibynnu pa opsiwn oedd yn cael ei ddilyn ar gyfer creu mwy o awdurdodau, llai eu maint.

5.7 Yn achos opsiwn 1 (uno gwirfoddol), mae angen penderfynu a ddylid caniatáu i gynigion ar gyfer uno gwirfoddol gael eu cyflwyno ar unrhyw adeg neu bennu

dyddiad terfynol ar gyfer eu cyflwyno yn ystod cylch etholiadol llywodraeth leol. Mantais peidio â phennu dyddiad terfynol yw'r hyblygrwydd pennaf y mae'n ei gynnig i lywodraeth leol. Yr anfantais yw'r effaith bosibl ar ddyddiadau etholiadau yn yr awdurdodau lleol yr effeithir arnynt a'r posibilrwydd y byddai angen Uwch-gyngor o holl aelodau'r awdurdodau presennol yn hytrach na gallu cynnal etholiadau i Gyngor Cysgodol cyn y diwrnod breinio. Mantais pennu dyddiad terfynol yw y byddai'n golygu bod modd cynllunio'n glir a byddai'n caniatáu i broses bontio gael ei chynnal sy'n darparu ar gyfer Awdurdod Cysgodol etholedig. Byddai hefyd yn golygu rhywfaint o gysoni rhwng unrhyw gynigion i uno a fyddai'n cael eu cyflwyno. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld Awdurdod Cysgodol etholedig yn ei le ac yn gwneud penderfyniadau ar gyllidebau, penodi staff ac ati cyn y diwrnod breinio, yn hytrach nag Uwch-gyngor. Ar y sail hon, pe byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ddilyn byddem yn cynnig pennu dyddiad cau i gyflwyno unrhyw gynnig ar gyfer uno gwirfoddol mewn unrhyw gylch etholiadol llywodraeth leol.

5.8 Yn yr un modd, yn achos opsiwn 2 (uno fesul cam yn 2022 a 2026), byddem yn pennu dyddiad cau i'r rheini a fyddai'n cytuno'n gynnar gyflwyno cynnig i uno cyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2021. Byddai'r dyddiad hwn yn cael ei bennu i sicrhau bod y broses bontio yn golygu bod modd i Awdurdodau Cysgodol gael eu sefydlu cyn i'r awdurdod neu'r awdurdodau newydd gael eu breinio yn 2022. O ran yr awdurdodau sy'n weddill, a fyddai'n cael eu huno yn 2026, byddem yn gwneud rheoliadau i sefydlu Pwyllgorau Pontio yn dilyn etholiadau 2021 ac mewn da bryd i ddarparu ar gyfer yr etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol yn 2025 cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd ar 1 Ebrill 2026.

5.9 Pe byddai opsiwn 3 (uno cynhwysfawr yn 2022) yn cael ei ddilyn, y bwriad fyddai cynnal yr etholiadau cyntaf i'r cynghorau newydd ym mis Mehefin 2021 i greu Awdurdodau Cysgodol. Byddai'r awdurdodau newydd yn ymgymryd â'r ystod gyfan o swyddogaethau a chyfrifoldebau llywodraeth leol ar y diwrnod breinio, sef 1 Ebrill 2022. Byddem yn gwneud rheoliadau i sefydlu Pwyllgorau Pontio yn fuan ar ôl cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.10 Byddem yn fodlon ystyried dyddiadau eraill yn 2021 ar gyfer cynnal yr etholiadau cyntaf i’r cynghorau newydd, a hynny’n ddibynnol ar gynnal yr etholiadau’n ddigon cynnar er mwyn i’r Awdurdodau Cysgodol gael digon o amser i ymgymryd â’u tasgau. Ni fyddai modd inni gynnal yr etholiadau i’r cyngor cysgodol ym mis Mai 2021 er mwyn osgoi gwrthdaro â’r etholiadau nesaf sydd wedi’u hamserlenni ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y dyddiad rydym yn ei ffafrio yw mis Mehefin 2021, ond byddai dyddiadau eraill

yn cael eu hystyried pe byddai achos yn cael ei gyflwyno dros wneud hynny.

5.11 Byddai etholiadau i'r prif awdurdodau presennol nad ydynt yn uno yn 2022 hefyd yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2021. Er mwyn osgoi gwrthdaro parhaus ag etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol, byddai’r etholiadau arferol dilynol ar gyfer yr awdurdodau newydd, a'r rheini a fyddai'n parhau, yn cael eu cynnal ym mis Mai 2025. O 2025 ymlaen, bydd aelodau’r holl brif awdurdodau yng Nghymru yn cael eu hethol am dymor o bum mlynedd.

5.12 Sicrhau bod etholiadau’r cynghorau cymuned yn cael eu trefnu fel eu bod yn parhau i gyd-fynd â’r etholiadau i’r prif awdurdodau yw ein bwriad. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad annibynnol o’r Sector Cynghorau Cymuned a Thref, bydd etholiadau’r cynghorau cymuned hefyd yn cael eu cynnal yn 2021 ac yn 2025.

5.13 Byddai’r cynghorau a etholir yn yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau newydd yn gwasanaethu fel 'Awdurdodau Cysgodol' tan y diwrnod breinio. Cynghorau 'preswyl' newydd fyddai’r Awdurdodau Cysgodol hyn a'u gwaith hwy fyddai canolbwyntio ar osod y sylfeini ar gyfer yr awdurdodau newydd. Byddent hefyd yn darparu mandad democrataidd uniongyrchol ar gyfer gwneud penderfyniadau allweddol yn y flwyddyn yn arwain at y diwrnod breinio, yn arbennig mewn perthynas â'r gyllideb a phenodi uwch-swyddogion.

5.14 Yn ystod y cyfnod rhwng yr etholiadau cyntaf a'r diwrnod breinio, byddai’r Awdurdodau Cysgodol yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol presennol. Yr awdurdodau lleol presennol fyddai’n gyfrifol o hyd am redeg gwasanaethau llywodraeth leol o ddydd i ddydd tan y diwrnod breinio. Byddai awdurdodau presennol a fydd yn destun uno yn cael eu diddymu ar 31 Mawrth 2022 neu 31 Mawrth 2026 (gan ddibynnu pa opsiwn a ddewisir) a byddai’r Awdurdodau Cysgodol yn cymryd drosodd y diwrnod canlynol.

5.15 Nid ydym yn cynnig cyfuno Powys â phrif awdurdod lleol arall, ond rydym yn agored i awgrymiadau eraill fel a nodwyd yn y bennod flaenorol. Felly, ni fyddai Powys yn rhan o'r gweithdrefnau a drafodir yn yr adran hon. Fodd bynnag, byddai Powys yn rhan bwysig o'r genhedlaeth newydd o awdurdodau yng Nghymru a fyddai’n cael eu creu gennym a byddai’n elwa ar bob un o’r darpariaethau ehangach yn y Bil. Bydd yr awdurdod hefyd yn gallu cael cymorth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

**Cwestiwn Ymgynghori 3**

Mae'r adran hon yn trafod y dull arfaethedig ar gyfer trawsnewid a'r goblygiadau ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Pontio ac etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol o dan bob opsiwn.

a) Ydych chi'n cytuno â'r broses bontio arfaethedig: sef sefydlu Pwyllgorau Pontio a sicrhau bod etholiadau i Awdurdodau Cysgodol yn gallu cael eu cynnal cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd?

b) Ydych chi'n cytuno, pe byddai opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, y dylem bennu dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol ym mhob cylch etholiadol?

c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y map arfaethedig?

**Cwestiwn Ymgynghori 4**

Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu cynnal unrhyw etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2021.

A oes unrhyw reswm pam na fyddai mis Mehefin 2021 yn ddyddiad addas? Os felly, awgrymwch ddyddiad arall gan nodi'r rhesymau pam y byddai'r dyddiad hwnnw yn fwy addas.

**Cwestiwn Ymgynghori 5**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cynlluniau neu asesiadau sy'n gysylltiedig â chylchoedd etholiadol, er enghraifft asesiadau llesiant a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag unrhyw gylchoedd etholiadol newydd yn y dyfodol. A oes unrhyw gynlluniau neu faterion eraill a allai fod ynghlwm wrth y cylch etholiadol y mae angen inni eu hystyried?

**Adolygiadau Etholiadol**

5.16 Pe byddem yn parhau ar sail un o'r opsiynau yn yr ymgynghoriad hwn, byddai rhaid rhoi cyfarwyddyd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau etholiadol o'r ardaloedd awdurdod lleol newydd a amlinellir mewn patrwm penodedig ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a drafodwyd yn y bennod flaenorol[12]. Proses yw adolygu etholiadol lle byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y wardiau etholaethol, nifer y cynghorwyr ar gyfer pob ward a maint y cyngor ar gyfer pob un o'r awdurdodau newydd.

5.17 Byddai Gweinidogion Cymru yn dymuno rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ddechrau adolygiad etholiadol ar gyfer yr ardaloedd awdurdod newydd a fydd

[12] Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau etholiadol o brif gynghorau er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus (gweler a21(3) o Ddeddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013).

wedi’u cadarnhau cyn gynted â phosibl. Gallai hyn fod cyn gynted ag y bydd Gweinidogion wedi cyhoeddi'n ffurfiol eu cynigion terfynol o ran y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol.

5.18 Ar sail hynny, rhagwelir y byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cyflwyno ei argymhellion erbyn mis Awst 2020 ar yr hwyraf, er mwyn i Weinidogion allu gwneud y gorchmynion trefniadau etholiadol angenrheidiol ar gyfer pob awdurdod newydd mewn da bryd i'r partïon gwleidyddol ddewis ymgeiswyr a gwneud y paratoadau angenrheidiol i gynnal yr etholiadau cyntaf. Gallai fod rhywfaint o amrywiaeth rhwng yr amseru gan ddibynnu ar yr opsiynau a fyddai'n cael eu dilyn. Er enghraifft, byddai opsiynau 1 a 2 yn cynnig cyfle i ymestyn y cyfnod sydd ar gael i'r Comisiwn a byddai modd blaenoriaethu adolygiadau i'w cwblhau yn gyntaf.

**Cwestiwn Ymgynghori 6**

Beth yw eich barn am y dull y dylid ei ddilyn i benderfynu ar derfynau'r adolygiadau etholiadol?

**Cyllidebau**

5.19 Pe byddem yn bwrw ati gydag un o'r opsiynau a amlinellir yn y Papur Gwyrdd hwn, byddai’r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnwys newidiadau technegol i gyllid sy'n ofynnol ar gyfer cefnogi'r broses o uno awdurdodau. Mae'r rhain yn cynnwys uno'n gyfreithiol gyllidebau refeniw a chyfalaf awdurdodau a chyfuno sylfeini trethu ac asedau lleol.

5.20 Mae'r amrywiad presennol o ran grym gwario a gallu i drethu ar draws Cymru yn ganlyniad yn rhannol i'r ad-drefnu ym 1996. O dan yr ad-drefnu hwnnw, crëwyd nifer o awdurdodau llai eu maint, gyda lefelau angen cymharol uchel a llai o allu trethu. Mae'r natur anghytbwys hwn yn cael effaith ar gyfiawnder a thegwch o ran darpariaeth gwasanaethau.

5.21 Mae cyfleoedd i’w cael i greu amgylchedd cyllid lle mae llai o amrywiad rhwng ardaloedd drwy ddod â'r ysgogiadau cyllidol ynghyd, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae gwasanaethau yn cael eu cyflenwi mewn modd mwy cyson. Mae tablau 6 a 7 yn Atodiad B yn dangos lleihad sylweddol yn yr amrywiad a welir mewn dangosyddion ariannol allweddol ar draws Cymru yn sgil dod ag awdurdodau lleol ynghyd. Mae tabl 6 yn benodol yn dangos maint y grym gwario cyfunol sydd ar gael i lai o awdurdodau, sy'n fwy eu maint.

5.22 O ran gosod cyllidebau, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y gofyniad treth gyngor, byddem yn disgwyl i Bwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol asesu nodweddion yr awdurdod mwy o faint arfaethedig yn ofalus er mwyn llywio cynlluniau cyllideb ar gyfer y tymor canolig. Wrth geisio cydgrynhoi'r

ystod o ysgogiadau ariannol sydd ar gael i awdurdodau, rhaid asesu unrhyw effaith ariannol uniongyrchol ar aelwydydd yn llawn a'i chydbwyso â'r angen am gyllid ar gyfer gwasanaethau.

5.23 Mae gan awdurdodau lleol brofiad o wneud hyn yn ogystal â sicrhau bod cymunedau yn cael gwybod am eu cynlluniau ar gyfer y gyllideb. Mae'r mathau o dystiolaeth a fyddai'n cael eu defnyddio i lywio'r broses hon yn cynnwys dangosyddion economaidd lleol, amcanestyniadau o'r galw am wasanaeth, chwyddiant prisiau, costau cyflogeion a phensiynau a phwysau eraill o ran cost, rhagdybiaethau ynglŷn â chynhyrchu incwm, gwybodaeth o gyllidebau Llywodraeth Cymru (a'r DU yn ehangach) a'r wybodaeth a ddarperir drwy setliadau llywodraeth leol. Byddai swm y dreth gyngor y bydd angen i'r awdurdodau newydd ei godi yn ganlyniad uniongyrchol i gynllunio'n gynnar.

5.24 Gall trethdalwyr sy'n byw yn yr un awdurdod lleol ddisgwyl cyfrannu symiau cyfatebol (a fydd yn gysylltiedig â'u hamgylchiadau) tuag at gyflenwi gwasanaethau yn yr ardal honno. Mae hon yn egwyddor graidd ar gyfer y ddwy dreth leol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn fwy o her mewn rhai ardaloedd nag eraill, ond nid yw'n debygol o fod ar yr un raddfa â'r hyn a brofwyd yn ystod yr ad-drefnu ym 1996. Roedd cysoni'r dreth gyngor yn fater y bu'n rhaid mynd i'r afael ag ef yn ystod yr ad-drefnu rhwng 1994 a 1996, a hynny oherwydd yr amrywiad mawr rhwng y cynghorau sir a dosbarth a oedd yn cael eu cyfuno a'u dadgyfuno.

5.25 Mae tabl 8 yn Atodiad B yn dangos lefelau presennol y dreth gyngor Band D ar draws y 22 o awdurdodau lleol. Mae'n dangos, dros gyfnod o amser, fod yr awdurdodau lleol wedi cydgyfeirio a bod y gwahaniaethau yn fach yn y rhan fwyaf o leoedd heddiw, felly ni ddylai hwn fod yn fater na ellid ei oresgyn. Gallai Pwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol ddefnyddio'r cyfnod pontio i ystyried felly sut i baratoi ar gyfer rhoi trefniant priodol newydd ar waith cyn i awdurdodau uno. Byddem yn disgwyl i'r Pwyllgorau Pontio a'r Awdurdodau Cysgodol sicrhau, o leiaf, na fydd unrhyw ymwahanu pellach yn ystod y cyfnod yn arwain at ddwyn awdurdodau ynghyd.

5.26 Bydd rhaid cysoni trefniadau cyllid eraill hefyd, fel polisïau lleol ynglŷn â chodi tâl am wasanaethau, strategaethau wrth gefn a darpariaeth refeniw ar gyfer benthyg a buddsoddi yn y dyfodol.

5.27 Byddwn yn trafod yr ystod gyfan o faterion cyllid gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, byddai cynllunio ariannol cynhwysfawr, manwl, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer y tymor canolig yn un o rolau craidd y Pwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol. Byddai hynny yn cynnwys y paratoadau ar gyfer mynd ati i gydgrynhoi cyllid awdurdodau lleol cyn iddynt ddod uno.

5.28 Ein huchelgais ni yw y byddai unrhyw broses o newid yn cael ei harwain gan lywodraeth leol. Ein bwriad, os byddwn yn parhau, fyddai galluogi arweinwyr gwleidyddol a swyddogion mewn llywodraeth leol i weithio gyda ni i gynllunio'r dyfodol. Mae Grŵp Cyfeirio Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol wedi cael ei sefydlu eisoes gydag Arweinwyr awdurdodau lleol yn cynrychioli pob un o'r prif grwpiau gwleidyddol yn CLlLC yn ymuno â ni mewn deialog agored ac adeiladol ynglŷn â'r dyfodol.

## 6. Cryfhau llywodraeth leol a chymorth drwy newid

6.1 Nid newid strwythurol yw'r unig ystyriaeth wrth ddiwygio llywodraeth leol – mae hefyd yn golygu newid diwylliant. Y diben yw cryfhau democratiaeth leol a rhoi'r pwerau a'r hyblygrwydd sydd eu hangen ar yr awdurdodau lleol newydd er mwyn gwneud gwir wahaniaeth yn eu cymunedau.

6.2 Mae'r bennod hon yn ystyried yr agweddau ehangach hyn o'n cynigion i ddiwygio, ac yn amlinellu'r cynnig fydd ar gael i'r awdurdodau lleol hynny sy'n dewis dod ymlaen i uno, pan fo hynny'n opsiwn iddynt.

**Gwerthfawrogi cynghorwyr**

6.3 Mae dyfodol democratiaeth leol yn dibynnu ar sicrhau rôl ystyrlon i gynghorwyr lleol. Dylai'r rôl hon fod yn un y mae'r cyhoedd yn ei deall a'i gwerthfawrogi ac sy'n gallu denu ystod eang o bobl sydd â'r sgiliau a'r brwdfrydedd i ennyn hyder. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwella amrywiaeth ond mae mwy i'w wneud eto. Mae gennym gyfle i gydnabod ymrwymiad anferth a phroffesiynoldeb cynrychiolwyr etholedig lleol.

6.4 Mae cynghorwyr yn gweithio'n galed i wella bywyd yn eu cymunedau, ond mae llawer yn teimlo'n rhwystredig a'u bod am wneud mwy. Maent am gael y cyfle i weithio gyda'u cymunedau i siapio gwasanaethau a phenderfyniadau a dylanwadu arnynt. Mae cynghorwyr ymroddedig yn hollbwysig i ddemocratiaeth a chymunedau lleol. Dylai awdurdodau lleol fynd ati i sicrhau bod aelodau etholedig yn cyfrannu i'r eithaf a mynd ati i ddefnyddio'u cyfraniad yn fwy effeithiol.

6.5 Mae'r pwysau'n cynyddu ar aelodau etholedig nid yn unig o ran rheoli'r heriau yn sgil cyni, ond hefyd o ran mynd ati i graffu ar gabinetau cynghorau'n effeithiol. Mae eu rôl gynrychioli o dan bwysau oherwydd llwyth gwaith cynyddol, y galwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg a'r effaith ar eu bywydau personol.

6.6 Mae'r holl bwysau ar aelodau etholedig ynghyd â lefel y gydnabyddiaeth ariannol, yn golygu nad yw'r rôl yn ddeniadol i lawer o bobl a fyddai'n gynghorwyr gwych. Ni allant fforddio, yn ariannol nac yn bersonol, i ymrwymo i'r lefel ofynnol. Rydym am i gynghorwyr adlewyrchu'n llawn ein cymunedau a chynrychioli'r amrywiaeth o brofiadau, diddordebau a blaenoriaethau yn y cymunedau hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylem gydnabod yr ymrwymiad o fod yn gynghorwyr a sicrhau eu bod yn cael cydnabyddiaeth ariannol briodol, a'u bod yn cael eu parchu a'u cydnabod am y gwaith maent yn ei wneud yn eu cymunedau.

6.7 Yn yr un modd, bydd yn golygu rhoi'r cyngor a'r adnoddau sydd eu hangen ar gynghorwyr i ymgymryd â'u rôl. Dylent gael mynediad at wybodaeth a chael gwybod am unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar ran eu cyngor. Dylent hefyd gael cefnogaeth er mwyn cyflawni eu rôl graffu yn effeithiol. Bydd hefyd yn golygu sicrhau bod y materion sylfaenol yn eu lle, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau TGCh, sy'n annigonol mewn rhai mannau ar hyn o bryd yn anffodus.

6.8 Mae creu awdurdodau newydd yn cynnig cyfle i adolygu'r cymorth i aelodau etholedig sicrhau bod modd iddynt ymgymryd â'u rolau'n effeithiol fel cynrychiolwyr yr etholaeth ac fel aelodau cyfrifol o'r awdurdod lleol.

6.9 Dylai gwybodaeth cynghorwyr am gryfderau ac anghenion eu cymunedau, ynghyd â'r heriau a'r dyheadau, gael ei bwydo i mewn i waith eu cyngor. Dylai aelodau etholedig fod wrth galon yr awdurdod, pa un a ydyn nhw'n rhan o'r weithrediaeth ai peidio.

6.10 Rydym yn gwybod bod lefel yr hyder yng ngwleidyddion pob un o'n sefydliadau democrataidd yn is nag erioed. Bydd ein cynigion yn rhoi cyfle i gynnal trafodaeth â phobl Cymru am adfer yr hyder hwnnw drwy sicrhau bod ein cynghorau newydd mor agored a thryloyw â phosibl, a thrwy ennyn diddordeb eu dinasyddion yn eu gwaith, a'u cynnwys. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i hyrwyddo rôl aelodau etholedig a helpu cymunedau i ddeall a gwerthfawrogi'r rhan bwysig sydd gan gynghorau yn eu bywydau.

**Cwestiwn Ymgynghori 7**

a) Sut gall cynghorau ddefnyddio gwybodaeth eu haelodau etholedig am eu cymunedau, a'u cysylltiadau ynddynt, yn fwy effeithiol?

b) Sut y gallwn gydnabod yn well lefel y cyfrifoldeb o fod yn gynghorydd lleol? Pa newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael fyddai'n galluogi ystod ehangach o bobl i fod yn rhan o'r gynrychiolaeth ddemocrataidd leol?

**Mwy o bŵer a hyblygrwydd**

6.11 Mae angen inni sicrhau bod cyfraniad aelodau etholedig yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n ehangach. Ochr yn ochr â hyn, rydym am eu grymuso nhw a'r cynghorau y maent yn rhan ohonynt. Rhaid i ni sicrhau bod gan gynghorau'r pwerau a'r hyblygrwydd sydd eu hangen arnynt. Mae llywodraeth leol wedi gofyn yn gyson am drafodaeth ddilys ar bwerau ychwanegol ar gyfer cynghorau, a lle dylai'r Llywodraeth gamu yn ôl a rhoi llawer mwy o ryddid iddynt weithredu.

6.12 Gallwn edrych ar enghraifft Siarter Hunanlywodraeth Leol Ewrop i ddarparu'r egwyddorion i'n harwain.

6.13 Mae cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, ond mae'n amlwg bod angen gwneud mwy. Mae'r her oherwydd cyni, a'r alwad i weithredu yn y ddogfen *Ffyniant i Bawb*, yn golygu bod angen inni feddwl yn radical. Ni allwn fforddio cael dwy haen o Lywodraeth yn ceisio gwneud yr un gwaith. Mae angen inni fod yn llawer cliriach am y ffiniau rhwng rolau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a'u parchu.

6.14 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan lywodraeth leol y pwerau sydd eu hangen arni i wella safonau byw yn ein cymunedau. Mae cydgrynhoi capasiti sy'n digwydd wrth uno yn rhan o hyn, ond rydym yn bwriadu mynd ymhellach ar ran yr awdurdodau hynny sy'n croesawu'r agenda hon. Ein bwriad yw deddfu ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol i'r prif gynghorau sy'n uno, a chynghorau cymuned sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Bydd hyn yn eu galluogi i fabwysiadu dulliau mwy arloesol o ddiwallu anghenion eu cymunedau.

6.15 Rydym hefyd yn barod i fynd i'r afael â chyfyngiadau mwy penodol. Felly, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ysgrifennu at arweinwyr llywodraeth leol yn gofyn iddynt amlinellu'r pwerau a'r rhyddid ychwanegol sydd eu hangen arnynt.

6.16 Wrth ymateb, awgrymodd llywodraeth leol nifer o feysydd lle byddai pwerau neu hyblygrwydd pellach yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mewn perthynas â chynllunio defnydd tir, tai, sgiliau, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Yn ogystal â hynny, amlygwyd nifer o faterion sy'n ymwneud â chyllido, cyllid a threthu gan awdurdodau lleol.

6.17 Rydym wedi ymrwymo i barhau i drafod y cynigion hyn gan lywodraeth leol er mwyn sicrhau bod yr agenda mewn perthynas â newid strwythurol a chynyddu pwerau yn symud ymlaen ar yr un pryd. Byddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud datganiad pellach ar bwerau ychwanegol penodol.

**Cwestiwn Ymgynghori 8**

a) A oes unrhyw bwerau eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw?

b) A oes rhyddid neu hyblygrwydd eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw?

**Trawsnewid Gwasanaethau**

6.18 Byddai creu awdurdodau newydd gyda mwy o bwerau a hyblygrwydd yn golygu bod modd ad-drefnu ac ailgynllunio gwasanaethau. Byddai cydgrynhoi awdurdodau lleol yn helpu i ddarparu'r capasiti i ddatblygu gwasanaethau arloesol a hyblyg sy'n barod i ddiwallu anghenion yr 21$^{ain}$ ganrif.

6.19 Mae cyfle i ddefnyddio adnoddau digidol i alluogi newid ac i fanteisio ar y broses o greu awdurdodau newydd er mwyn cyflwyno mwy o blatfformau a rennir ar gyfer cynnal gweithgareddau cyffredin.

6.20 Byddai gan awdurdodau lleol sy’n fwy eu maint fwy hefyd o fàs critigol o arbenigedd, sgiliau a chapasiti. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i wasanaethau llai a rolau arbenigol lle mae'n aml rhaid rhannu adnoddau prin yn denau. Dylai awdurdodau sydd wedi'u huno, gyda chyllidebau mwy, portffolios asedau a sylfeini trethu mwy a chyda mwy o drosoledd a phŵer prynu, fod yn fwy cadarn i wrthsefyll amodau economaidd a chymdeithasol anwadal. Dylai olygu hefyd fod gan yr awdurdodau hyn fwy o gapasiti i fanteisio ar gyfleoedd ariannol a buddsoddi mwy strategol.

6.21 Wrth i gyni barhau, mae'r achos dros rannu gwasanaethau trafodiadol ac arbenigol yn gryfach fyth. Rydym yn cynnig cyflwyno cynigion er mwyn gwneud cynnydd yn y maes hwn, a byddwn yn gwahodd yr awdurdodau hynny sy'n fodlon cydweithio drwy uno i fod yn rhan o'r broses o ddylunio atebion rhanbarthol ac 'unwaith i Gymru'. O ran y rheini na fydd yn dod ymlaen pan fo’r opsiwn ar gael, byddai angen iddynt gydnabod y bydd disgwyl iddynt fabwysiadu trefniadau a fydd wedi'u llywio gan eraill.

**Cwestiwn Ymgynghori 9**

a) Pa feysydd sy'n cynnig y cwmpas mwyaf i rannu gwasanaethau trafodiadol?

b) Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu trefniadau o'r fath?

**Annog pobl i roi o'i gorau**

6.22 Y gweithlu ymroddedig sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus lleol yw ein hased gwasanaeth cyhoeddus mwyaf gwerthfawr. Mae gan y bobl hyn sgiliau a phrofiad y mae'n rhaid inni eu defnyddio'n fwy effeithiol. Mae'r data ar y gweithlu yn Nhabl 9 yn Atodiad B yn dangos bod cryn gapasiti o ran gweithlu'r awdurdod lleol ar draws Cymru. Os ydym yn ystyried un gwasanaeth cyhoeddus i Gymru, gallwn agor y cyfleoedd i'n gweithlu.

6.23 Ym mhob cwr o Gymru, mae awdurdodau lleol yn cael eu gwerthfawrogi fel cyflogwyr ac mae ganddynt yn aml le amlwg iawn yn y marchnadoedd llafur

lleol. Pan fydd swyddi'n cael eu colli mewn awdurdod lleol, bydd yn aml yn anodd dod o hyd i swyddi eraill yn eu lle. Mae cyflogaeth mewn llywodraeth leol yn golygu gwaith teg lle mae gan unigolion lais, ac maent yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cymunedau ac yn eu gwasanaethu. I lawer, mae’r ffaith eu bod nhw'n gweithio i'r cyngor yn cyflyru emosiynau sy’n golygu mwy iddynt nag union fanylion y swydd neu enw'r cyflogwr.

6.24 Os byddwn yn bwrw ymlaen ag un o'r opsiynau yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cydnabod y bydd newid yn peri ansicrwydd i'r rheini sy'n gweithio mewn llywodraeth leol a bydd goblygiadau i'r rhan fwyaf, os nad pob un, ohonynt. Er bod awdurdodau lleol yn rhannu sylfaen gyflog a thelerau ac amodau gyffredin, mae rhai gwahaniaethau o hyd rhwng awdurdodau. Bydd dwyn gwahanol arferion cyflogaeth ynghyd hefyd yn datgelu gwahaniaethau o ran diwylliant yn y gweithle.

6.25 Mae adnoddau a gallu yn wahanol ar draws pob un o'r awdurdodau lleol presennol wrth reswm. Er enghraifft, mae Tabl 10 yn Atodiad B yn tynnu sylw at yr amrywiad yn nifer y staff mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn y prif awdurdodau lleol. Bydd cael dealltwriaeth o'r gwahaniaethau hyn, a datblygu cynlluniau sy'n defnyddio sgiliau a gallu'r staff sydd ar gael i'r awdurdodau newydd yn y ffordd orau bosibl, yn her.

6.26 Bydd yn bwysig deall faint o gapasiti a gallu sydd gan bob awdurdod lleol presennol a defnyddio’r sgiliau a’r capasiti sydd ar gael i'r eithaf. Bydd y dull y byddwn yn ei ddilyn yn cael ei arwain gan ein hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol.

6.27 Mae gan bob swyddog llywodraeth leol rôl arwain, a bydd dwyn awdurdodau lleol ynghyd i lunio awdurdodau newydd yn golygu bod modd rhyddhau'r capasiti hwn ar bob lefel. Bydd cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau newydd, i chwilio am y ffyrdd gorau o wneud pethau a'u cymhwyso yn eu hawdurdodau newydd. Bydd cyfrifoldeb ar uwch-arweinwyr i gefnogi eu staff ac wynebu'r her o newid gydag optimistiaeth a thrwy arwain yn greadigol. Ein nod yw newid i ddiogelu swyddi, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, a lleihau effaith toriadau tameidiog parhaus.

**Y cynnig i gefnogi newid**

6.28 Rydym wedi amlinellu cynigion ar gyfer cryfhau a datblygu cadernid awdurdodau lleol yng Nghymru drwy greu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai newydd yn lle'r rhai presennol, a chynyddu'r pwerau a'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r awdurdodau newydd hynny. Ni fydd y newid hwn yn natur yr awdurdodau lleol yn digwydd eto yn ystod y genhedlaeth hon, ac mae'n bwysig felly ein bod ni'n gwneud hyn yn iawn.

6.29 Yn y *Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol* (2014) amlinellwyd gennym yn fras rai o'r heriau a oedd yn wynebu awdurdodau lleol wrth ystyried uno. Cafodd yr heriau hyn eu hystyried ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)[13] a oedd yn cyd-fynd â'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft ym mis Tachwedd 2015. Roedd rhai o'r prif heriau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y *Gwahoddiad i Uno* a'r RIA yn cynnwys:

- Materion staffio gan gynnwys cyflogau, strwythurau, polisïau cyflogaeth a phensiynau
- Meithrin dealltwriaeth o gapasiti a gallu sefydliadol a'r gweithlu
- Arwain, recriwtio a chadw staff
- Rheoli asedau ac ystadau
- Systemau a phrosesau mewnol gan gynnwys gwasanaethau TGCh
- Sefydlu strwythurau ariannol a chyllidebau
- Ad-drefnu a thrawsnewid gwasanaethau.

6.30 Mae modd trechu'r heriau hyn. Maen nhw'n gallu bod yn gymhleth, a bydd rhaid wrth ymrwymiad ac arweiniad ar bob lefel o Lywodraeth i'w goresgyn. Ond ni ddylid defnyddio'r heriau fel rheswm i osgoi gwneud y newidiadau sydd eu hangen i helpu i drawsnewid ein gwasanaethau cyhoeddus a'u cynnal ar gyfer y dyfodol.

6.31 Awgrymwyd yn yr RIA y gallai uno prif awdurdodau lleol gostio rhwng £97m a £246m, gan ddibynnu ar nifer yr awdurdodau a fyddai'n uno. Roedd yn glir mewn ymatebion a gafwyd i ymgyngoriadau yn y gorffennol ac adborth ehangach gan awdurdodau lleol bod ganddynt bryderon ynghylch sut y byddai'r costau hyn yn cael eu bodloni.

6.32 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, os byddem yn bwrw ymlaen ag un o'r opsiynau i greu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, byddwn yn darparu cymorth ymarferol cynnar i awdurdodau lleol. Gallai hyn gynnwys datblygu'r gweithlu, integreiddio gwasanaethau a datblygiadau digidol, a byddai'n canolbwyntio ar gynorthwyo awdurdodau lleol ac aelodau etholedig gyda'r heriau y gallent eu hwynebu i ddwyn gwasanaethau ynghyd, ac i nodi cyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau.

6.33 Wrth lunio rhaglen cymorth a rennir newydd, byddai'n rhaid inni nodi pryd y bydd angen mynd i'r afael â gwahanol faterion a lle y bydd yn ddiogel gadael materion am y tro. Byddai cymorth yn cael ei gyflwyno fesul cam yn naturiol gydol y broses bontio ac wrth i benderfyniadau gael eu gwneud cyn i'r awdurdodau newydd gael eu breinio. Byddai'r dull fesul cam hwn yn helpu i

[13] https://beta.llyw.cymru/bil-llywodraeth-leol-cymru-drafft-ar-memorandwm-esboniadol

sicrhau bod maint y gwaith yn ymarferol ac yn ein galluogi i ryddhau'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael. Byddem yn dymuno gweithio gydag awdurdodau lleol i ymchwilio i opsiynau arloesol ar gyfer rhoi cymorth ac i ddod o hyd i adnoddau ar gyfer rhai o'r meysydd, er enghraifft defnyddio'r cyfalaf a dderbynnir o werthu asedau i helpu gyda'r costau trawsnewid.

6.34 Mae’n anochel wrth greu sefydliadau newydd y bydd galw ar amser ac adnoddau’r awdurdodau presennol er mwyn iddynt reoli’r broses. Argymhellodd y Comisiwn Williams y dull o ddwyn awdurdodau cyfan ynghyd yn y lle cyntaf gan y byddai’n golygu cyn lleied o amharu â phosibl a byddai modd creu’r awdurdodau newydd yn gymharol gyflym. Rydym yn credu mai’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, lle bydd awdurdodau lleol cyfan yn cael eu dwyn ynghyd, yw’r ffordd fwyaf syml, a fydd yn amharu lleiaf, o fynd ati i wir newid strwythur. Byddem am weithio gydag awdurdodau lleol i leihau unrhyw amhariad a chefnogi proses bontio llyfn.

**Buddsoddi mewn pobl**

6.35 Er mwyn creu'r diwylliant sydd ei hangen fel sylfaen ar gyfer yr awdurdodau lleol creadigol a chynaliadwy yr ydyn ni oll eisiau eu gweld yn y dyfodol, bydd yn hanfodol buddsoddi mewn datblygu a newid sefydliadol, ac mewn arweiniad ar bob lefel.

6.36 Yn ei hanfod, tasg y bydd rhaid i'r awdurdodau newydd ymgymryd â hi yw hon, ac rydym yn cydnabod bod llawer o bobl mewn llywodraeth leol sydd â'r sgiliau a'r weledigaeth i wneud hyn. Rydym yn gwybod hefyd y bydd yn her ac, mewn ymateb i'r heriau ariannol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n bosibl y bydd rhai awdurdodau wedi lleihau eu capasiti i ymateb, yn arbennig mewn meysydd corfforaethol fel adnoddau dynol.

6.37 Os byddwn yn bwrw ymlaen ag un o'r opsiynau yn yr ymgynghoriad hwn, ein nod bydd cytuno sut fydd orau i gefnogi llywodraeth leol i lenwi bylchau o'r fath mewn capasiti i helpu'r awdurdodau newydd i gael y dechrau gorau oll. Academi Wales yw'r ganolfan genedlaethol ar gyfer rhagori wrth arwain sy'n helpu i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol yng Nghymru. Mae'n rhoi mynediad at gyfleoedd i bob arweinydd a rheolwr y gwasanaeth cyhoeddus, gan feithrin gallu, capasiti a chydweithio i gyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus gorau i Gymru – bydd yn rhan allweddol o'n cynnig ar gyfer llywodraeth leol.

**Amddiffyn pobl**

6.38 Rydym yn credu y dylem wneud popeth posibl i osgoi dyblygu ymdrechion a gwneud y gorau o'r gallu a'r arbenigedd sydd gennym. Mae amrywiaeth o ddulliau y gellid eu defnyddio, o ddull 'unwaith i Gymru' i ddatrysiadau wedi'u

teilwra ar gyfer pob mater yn benodol. Nid yw'r naill ddull na'r llall yn briodol fel dull hollgynhwysfawr, ond mae'n anodd cyfiawnhau gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae pobl sy'n gwneud gwaith tebyg mewn gwahanol rannau o Gymru yn cael eu trin.

6.39 Fel mater o egwyddor, dylid darparu cyngor ac arweiniad i warchod buddiannau staff, rhoi sicrwydd a sicrhau bod cysondeb a thegwch yn y ffordd y mae pobl yn cael eu trin.

6.40 Mae Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a thrwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, wedi datblygu *Polisi Newid Sefydliadol y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol* ar reoli newid yn y sector cyhoeddus. Mae gwaith manylach wedi'i wneud hefyd ar ddatblygu agweddau mwy cyson at bolisïau Adnoddau Dynol. Dylai'r rhain ddarparu sylfaen gadarn.

6.41 Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth cyhoeddus wedi ymrwymo i gydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur cydnabyddedig i gyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl ar gyfer y bobl, staff y gwasanaeth cyhoeddus ac economi Cymru[14]. Mae ystod o gamau y gellid eu cymryd i roi cymorth o'r fath ar waith. Yn y gorffennol, mae Comisiynau Staff statudol wedi rhoi cyngor i'r Llywodraeth ac i awdurdodau ar ad-drefnu llywodraeth leol. Mae hynny'n un opsiwn. Opsiwn arall yw defnyddio ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol bresennol, gan gynnwys Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'r Cyd-gyngor Llywodraeth Leol. Rydym wedi cytuno bod dull partneriaeth gymdeithasol yn iawn i Gymru. Rydym hefyd o'r farn mai'r dull hwn, yn hytrach na chomisiwn staff newydd, y dylid ei ddefnyddio fel sylfaen unrhyw fecanwaith i sicrhau cymorth a chyngor arbenigol a chyson ar agweddau'r gweithlu ar ddiwygio, gan gynnwys gweithredu, ar y dull hwn. Byddwn yn mabwysiadu dull lle bydd gan undebau llafur cydnabyddedig rôl allweddol i'w chwarae.

**Trawsnewid gwasanaethau a systemau, a manteisio i'r eithaf ar asedau**

6.42 Mae creu awdurdodau newydd yn rhoi cyfle i ad-drefnu, ailgynllunio a thrawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi ar draws yr ystod o feysydd gwasanaeth awdurdod lleol. Ynghyd â'r pwerau newydd a mwy o ryddid, mae yna wir gyfle i gael effaith go iawn ar ran dinasyddion.

6.43 Drwy ddod â gwasanaethau ynghyd ar draws awdurdodau lleol ac ymchwilio i bwerau a rhyddid newydd, rhaid canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn gofyn inni wneud pethau mewn ffordd wahanol a chynnwys

[14] Cyngor Partneriaeth y Gweithlu: Partneriaeth a Rheoli Newid (2012)

pobl yn y broses o siapio'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio o ddydd i ddydd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sylfaen ar gyfer gwahanol fath o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gyda phum ffordd o weithio i arwain y ffordd y dylai gwasanaethau cyhoeddus gyflawni dros bobl.

6.44 Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i greu adnodd i helpu i gynllunio ac ad-drefnu gwasanaethau. Bydd Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer cynllunio gwasanaethau[15] yn helpu i ymwreiddio pum ffordd o weithio wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Gall y rheini sy'n cynllunio ac yn goruchwylio darpariaeth ddefnyddio'r Fframwaith i helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn gadarn a'u bod yn ceisio gwella llesiant pobl, heddiw ac yfory.

6.45 Nod y Fframwaith yw helpu gyda'r gwaith o ddatblygu partneriaeth fwy cytbwys rhwng gwasanaethau a defnyddwyr y gwasanaethau hynny. Mae'n cydnabod mai cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol ddylai gwasanaethau cyhoeddus ei wneud, ac ymyrryd dim ond pan fo angen a chyhyd ag y bo angen. Gallai fod yn ddefnyddiol er mwyn meddwl am syniadau a dechrau dod o hyd i ffyrdd o ailwampio gwasanaethau presennol i'w gwneud yn fwy effeithiol.

6.46 Mae gan adnoddau digidol rôl enfawr i'w chwarae hefyd wrth drawsnewid gwasanaethau, i wneud awdurdodau lleol newydd yn fwy cadarn ac i sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio'n well â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

6.47 Mae pob un awdurdod lleol yn wynebu heriau cyffredin o ran adnoddau digidol – a gall pob un ohonynt ddefnyddio adnoddau digidol i fynd i'r afael â heriau a rennir. Mae'r heriau a rennir hyn yn cynnwys: meithrin arbenigedd, ymateb i fygythiadau seiber a chynhyrchu gwybodaeth o ddata a all helpu i wella gwasanaethau; defnyddio adnoddau digidol i gefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg; a system gyffredin ar gyfer dilysu hunaniaeth dinasyddion. Mae'r heriau hyn – a chyfleoedd mwy cyfarwydd o ran datblygu system drethu gyffredin neu system gyffredin ar gyfer pensiynau – yn cynnig cyfle i greu un platfform neu wasanaeth neilltuedig (neu gyfuniad o'r ddau) yng Nghymru. Amlinellwyd ein hymrwymiad i ddatblygu hyn yn gynharach yn yr ymgynghoriad.

6.48 Fel sy'n eglur yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*, mae angen i'r gwasanaeth cyhoeddus yn gyfan gydweithio mewn ffordd llawer mwy integredig. Mae rhai systemau a rennir wedi'u sefydlu eisoes, er enghraifft System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n caniatáu i wasanaethau

[15] http://gov.wales/topics/improvingservices/future-generations-framework-for-service-design/?skip=1&lang=cy

iechyd a gofal cymdeithasol rannu gwybodaeth a darparu gwasanaeth gwell, mwy integredig i bobl. Mae potensial i wneud mwy o hyn, er enghraifft ym maes gwasanaethau iechyd meddwl. Gall newid strwythurol fod yn gatalydd ar gyfer gweithredu'r systemau hyn.

6.49 Canolbwyntiodd Adroddiad Williams yn benodol ar y posibilrwydd y gellid rhannu gwasanaethau 'swyddfa gefn', er enghraifft y gyflogres. Un o'r heriau a wynebir wrth ystyried yr agenda gyffredinol hon ar gyfer cydwasanaethau yw bod trefniadau wedi'u sefydlu ac, heb gatalydd allanol, nid oes llawer i gymell newid.

6.50 Mae cyfle nawr i ailystyried y cyfleoedd hyn – ond i wneud hynny mewn modd ystyriol a realistig. Rydym yn cydnabod bod cryn dystiolaeth bod creu cydwasanaethau i gyflawni tasgau gweinyddol rheolaidd yn gallu arwain at arbedion effeithlonrwydd. Gall gweithredu fel hyn ryddhau staff i ymgymryd â thasgau rheng flaen o ansawdd uchel a dod â rhywfaint o safon a chysondeb i wasanaethau na fyddai'n bosibl fel arall mewn unedau busnes llai o faint.

6.51 Nid creu cydwasanaethau di-enw, sydd ymhell wrth y bobl, yw'r nod. Nawr yw'r amser i benderfynu a ddylid datblygu systemau newydd, cyffredin yn hytrach na mabwysiadu systemau etifeddol sy'n bodoli eisoes. Mae gwaith ar y gweill eisoes gyda llywodraeth leol i greu tîm digidol newydd a meithrin capasiti arwain. Bydd cysoni hyn â threfniadau cydwasanaethau o dan arweiniad llywodraeth leol a allai ymgymryd â thasgau ar ran yr awdurdodau newydd yn gyfle da i greu swyddogaethau swyddfa gefn cyffredin sy'n fodern, yn effeithiol ac yn effeithlon.

6.52 Yn ogystal ag ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu platfformau newydd i gefnogi swyddogaethau gweinyddol craidd, rhaid inni benderfynu lle y mae'n hanfodol bod systemau cyffredin yn cael eu rhoi ar waith a lle y mae mwy o amser i symud yn raddol i gyflwyno system integredig.

6.53 Mae awdurdodau lleol eisoes angen gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u hasedau eu hunain, a gweithio gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus i wneud y defnydd gorau o asedau cyhoeddus eraill. Nid rhyddhau arbedion yn syml yw'r nod ond cefnogi amcanion polisi ehangach. Yn achos asedau ystadau, mae *Astudiaeth Beilot Cwm Taf: Cydweithredu Rhanbarthol*[16] yn enghraifft dda o'r gwaith sydd ar y gweill eisoes yn y maes hwn.

6.54 Dros amser, dylai ein cynigion ar gyfer cryfhau awdurdodau lleol ryddhau asedau ystadau. Fodd bynnag, heb ddealltwriaeth lawn o natur yr ystad, mae'n anodd gwybod faint yn union o gyfleoedd sydd mewn gwirionedd. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i ddatblygu

[16] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/170925-cwm-taf-pilot-study-cy.pdf

trefniadau mapio ystadau gwell i ddeall maint ystad y sector cyhoeddus. Neilltuodd Llywodraeth Cymru gyllid yng nghyllideb 2017-18 i gefnogi'r agenda hon. Gellid datblygu hyn ymhellach i gynnig cymorth ymgynghori i awdurdodau ddatblygu cynlluniau ar gyfer defnyddio'r ystad i sefydlu gallu a chapasiti sy'n gynaliadwy yn y maes hwn ar gyfer y tymor hwy.

**Cydweithio**

6.55 Rydym wedi amlinellu'r meysydd lle mae strwythurau, cyngor a chymorth yn bodoli eisoes ac a allai gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn.

6.56 Rydym wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol a CLILC ac rydym yn cydnabod mai nhw yw'r arbenigwyr ar sut mae llywodraeth leol yn gweithredu. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r heriau a fyddai'n gysylltiedig â'r cynigion hyn a sut y gellid eu goresgyn.

6.57 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn efallai y bydd angen cyngor arbenigol i helpu i adeiladu'r awdurdodau lleol cryfach, sydd wedi'u grymuso, a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn fel bod modd symud ymlaen yn gyson, yn deg ac yn dryloyw. Gallai hyn gynnwys cyngor a chymorth ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu, asesu capasiti a gallu, trawsnewid ac ad-drefnu gwasanaethau a chyfrifyddu a chyllidebu.

**Cwestiwn Ymgynghori 10**

a) Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu dull cyson ar draws Cymru, lle bo cysondeb yn bwysig, sut ydych chi'n meddwl fyddai orau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth ar y materion hyn?

b) Oes unrhyw heriau neu gyfleoedd eraill yn deillio o newid strwythurol neu ddarparu pwerau a hyblygrwydd eraill nad ydynt wedi eu nodi uchod? Os oes angen cymorth ar y meysydd hyn, ym mha ffordd y dylid rhoi'r cymorth hwnnw?

c) Pa un o'r materion a nodwyd uchod neu yn eich ymateb ddylai gael blaenoriaeth i'w ddatrys yn gynnar?

**Y Gymraeg**

6.58 Rydym wedi ystyried yn ofalus effaith ein cynigion ar y Gymraeg. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol i ystyried rôl y Gymraeg yng ngweinyddiaeth llywodraeth leol ac fel iaith y gweithle, a rôl llywodraeth leol i gefnogi'r Gymraeg drwy ei swyddogaethau datblygu

economaidd. Cafodd yr adroddiad *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*[17] ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2016 a derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o'r argymhellion[18].

6.59 Rydym yn credu y bydd creu awdurdodau newydd, os byddwn yn bwrw ymlaen â hyn, yn cynnig cyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg, wrth gyflenwi gwasanaethau ac fel iaith weinyddiaeth fewnol yn yr awdurdodau lleol. Bydd creu awdurdodau mwy o faint yn darparu cyfle i ddod â gallu a chapasiti ynghyd mewn un man a'u rhannu a bydd cryfderau yn cael eu datblygu yn yr awdurdodau newydd.

6.60 Mae Tabl 11 yn Atodiad B yn dangos y gyfran o siaradwyr Cymraeg ym mhob awdurdod lleol presennol ac ar gyfer yr awdurdodau newydd arfaethedig. Bydd yn bwysig sicrhau, lle bo yna sgiliau a chymhwysedd mewn cyflenwi gwasanaethau Cymraeg, bod y rhain yn cael eu diogelu a'u datblygu ymhellach er budd pob dinesydd yn yr ardaloedd awdurdod lleol newydd. Lle y bo busnes awdurdodau lleol presennol yn cael ei gynnal yn Gymraeg, yn yr awdurdodau lleol eu hunain ac yn eu cymunedau a chyda'u rhanddeiliaid, mae hyn wedi dylanwadu ar ein cynigion.

**Cwestiwn Ymgynghori 11**

Hoffem wybod eich barn am ba effeithiau y byddai’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r iaith ac o ran peidio â’i thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

a) Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi?

b) Sut y byddai modd cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn Ymgynghori 12**

Eglurwch hefyd sut y credwch y byddai modd ffurfio neu newid (os bydd angen) y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

[17] http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/160614-language-work-bilingual-services-cy.pdf
[18] http://llyw.cymru/docs/dsjlg/publications/161021-welsh-government-response-cy.pdf

**Cydraddoldebau a Phlant**

6.61 Fel y nodwyd gennym yn y ddogfen hon drwyddi draw, rydym yn bwriadu creu awdurdodau lleol cryf, cynaliadwy ac uchelgeisiol, sy'n dod ag arbenigedd a sgiliau at ei gilydd i gyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus y mae ar ein cymunedau eu heisiau, eu hangen ac y maent yn eu haeddu. I gyflawni hyn, bydd rhaid canolbwyntio'n benodol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynrychioli, neu gael eu cynrychioli, yn effeithiol yn eu cymunedau ac i sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau sydd arnynt eu hangen i gymryd rhan mewn cymdeithas.

**Cwestiwn Ymgynghori 13**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

**Cwestiwn Ymgynghori 14**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn rhoi braslun o farn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

**Cwestiwn Ymgynghori 15**
Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn.

# 7. Cynghorau Cymuned a Thref

7.1 Mae cynghorau cymuned yn rhan annatod o lywodraeth leol. Yn aml, y cynghorau cymuned sydd agosaf at y bobl ac at gymunedau lleol, ac felly byddant mewn sefyllfa unigryw i weld pa wasanaethau a allai gael effaith fawr ar fywydau pobl, a'u darparu. Lle mae cynghorau cymuned yn bodoli mewn ardal, bydd awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn troi atynt i fod yn llais cymunedau. Yr un fath ag aelodau etholedig yr awdurdodau lleol, rhaid i gynghorwyr cymuned gynrychioli eu cymunedau a bod yn gynrychiadol ohonynt. Dylent fynd ati i ymgysylltu â'r gymuned i helpu i nodi uchelgeisiau ac anghenion cymunedau lleol, ond hefyd i ddeall cryfderau ac asedau eu cymunedau.

7.2 Mae'r trefniadau presennol yn amrywio'n aruthrol, nid yn unig o ran cwmpas, ond o ran cyfrifoldebau, cyllidebau ac uchelgais hefyd. Mae adolygiad annibynnol, trawsbleidiol ar y gweill i nodi sut y gellir cryfhau cynghorau cymuned fel eu bod yn y sefyllfa orau i gefnogi eu cymunedau a gofalu am eu hardaloedd, a dylanwadu ar fywyd o ddydd i ddydd.

7.3 Mae'r adolygiad hwn yn ymchwilio i'r rôl y gallai cynghorau cymuned ei chwarae, gan dynnu ar arferion gorau; cynghori ar y model(au) neu'r strwythur(au) mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon; ac ystyried sut y gallai'r modelau a'r strwythurau hyn gael eu defnyddio ym mhob cwr o Gymru. Mae'n bwysig bod yr adolygiad yn cymryd amser i gasglu amrywiaeth o farn, a chael tystiolaeth, i lywio'r argymhellion. Bydd y panel adolygu yn cyflwyno'r canfyddiadau a fydd yn dod i'r amlwg ym mis Gorffennaf 2018, a bydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol erbyn mis Hydref 2018.

## 8. Casgliadau

8.1 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cyflwyno'r dadleuon bod ar Gymru angen awdurdodau lleol mwy o faint, cryfach, mwy galluog, sy'n meddu ar y pwerau, y sgiliau a'r capasiti i ddiogelu a chyflenwi’r gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sydd eu hangen ar ein dinasyddion. Rydym yn glir hefyd fod rhaid i awdurdodau lleol fod yn fwy na dim ond ffatrïoedd cyflenwi gwasanaethau. Mae'r rôl ehangach sydd gan awdurdodau i gynrychioli lle a rhoi arweiniad i'n cymunedau yn hanfodol ond mae gormod o amser wedi mynd heibio erbyn hyn ers i’r ffaith honno gael ei gwerthfawrogi fel y dylai.

8.2 Rydym yn cydnabod ein bod wedi cynnal trafodaethau parhaus â'n rhanddeiliaid ers nifer o flynyddoedd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mewn gwirionedd, canlyniadau'r trafodaethau hynny, gan ddechrau â'r rheini sy'n deillio o Adroddiad Williams, sy'n cael eu cyflwyno gennym yma.

8.3 Rydym am weld awdurdodau lleol mwy cadarn a chynaliadwy, sydd wedi'u grymuso i gefnogi cymunedau drwy ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon ac effeithiol. Mae'r newid yn nemograffeg Cymru ynghyd â'r ansicrwydd cyllidol parhaus yn rhoi pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Nid yw'r pwysau hwn yn newydd, ond mae’r sefyllfa yn fwy difrifol erbyn hyn a bydd yn parhau felly am y dyfodol agos. Mae wir angen newid radical a all helpu i drawsnewid ein gwasanaethau a chyflenwi'r llywodraeth leol gref, galluog sydd arnom ei hangen i sicrhau ffyniant i bawb.

8.4 Rydym yn cydnabod na fyddai newid strwythurol ar ei ben ei hun yn cyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sydd eu hangen ar gyfer Cymru fodern a llewyrchus. Byddai ein cynigion ar gyfer newid strwythurol yn cael eu cyflawni ar yr un pryd â chynnig mwy o bwerau a rhyddid i lywodraeth leol, cynigion i adfywio democratiaeth leol, cynyddu tryloywder, darparu trefniadau craffu mwy effeithiol a chyflwyno dull newydd o reoli perfformiad. Byddai hyn yn rhan o ddull ehangach a oedd yn cynnwys gweithio'n gryfach yn rhanbarthol mewn meysydd allweddol. Mae mynd ati'n barhaus i weithio'n rhanbarthol yn hanfodol yn ei rinwedd ei hun a byddai nifer llai o awdurdodau yn helpu i oresgyn rhai o'r heriau a wynebir ar hyn o bryd wrth gydweithio ar draws nifer o awdurdodau lleol.

8.5 Byddai ein cynigion newydd yn gatalydd ar gyfer creu llywodraeth leol ar ei newydd wedd yng Nghymru, a fydd yn cyflawni ochr yn ochr â chynghorau tref a chymuned cryfach ac yn fodel cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth leol.

8.6 Mae'r sail resymegol ar gyfer newid yn syml ac yn un sydd angen gweithredu arni ar fyrder. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru wneud newidiadau ar ei phen ei hun. I gyflwyno newid strwythurol yn effeithiol, rhaid wrth arweiniad llywodraeth leol, ei haelodau etholedig a'i gweithlu i gyflenwi awdurdodau lleol cryf a chynaliadwy.

## Atodiad A

Cyhoeddiadau / ymgyngoriadau blaenorol sydd wedi cyfrannu at yr opsiynau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn, ac sy'n sail iddynt.

**Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Ionawr 2014)**

Ym mis Ebrill 2013, sefydlodd y Prif Weinidog y Comisiwn fel cyfle i'r rheini sy'n rhan o gyflenwi gwasanaethau, y rheini sy'n atebol yn wleidyddol amdanynt a'u defnyddwyr ystyried sut yr oedd y gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraethu: hynny yw, yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad ac yn cael eu cyflenwi yn y modd mwyaf effeithiol i'r cyhoedd. Cyhoeddodd y Comisiwn ei ganfyddiadau ar 20 Ionawr, 2014.

Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â phob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o dan bum thema; cymhlethdod; maint a gallu; llywodraethu, craffu a chyflenwi; arweinyddiaeth a diwylliant a pherfformiad a rheoli perfformiad. Roedd nifer o argymhellion eang yn yr adroddiad, gan gynnwys argymhellion ar strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

**Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni. Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol (Gorffennaf 2014)**

Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol llywodraeth leol, a cheisiai ennyn diddordeb ac ymateb eang mewn perthynas â'r heriau a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus. Ymatebodd y Papur Gwyn hefyd i agweddau llywodraeth leol ar adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol (Medi 2014)**

Roedd y gwahoddiad i uno'n wirfoddol yn cyflawni ymrwymiad yn *Diwygio Llywodraeth Leol* i gyhoeddi prosbectws ar gyfer uno'n wirfoddol. Roedd y papur yn gwahodd awdurdodau lleol i fynegi diddordeb i uno'n wirfoddol cyn unrhyw raglen statudol bosibl. Roedd y gwahoddiad hefyd yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i gefnogi uno gwirfoddol.

**Y Cynulliad yn craffu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (y "Bil Paratoi'r Ffordd") i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (o fis Ionawr 2015)**

Fel rhan o'r pecyn diwygio arfaethedig, roedd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf (sef Deddf 2015 erbyn hyn) yn gwneud darpariaeth i uno'n wirfoddol a rhoi ar waith ddeddfwriaeth baratoadol ar gyfer uno a diwygio ymhellach. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwyllgorau pontio, trefniadau etholiadol, trefniadau cydnabyddiaeth ariannol a chyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio.

**Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni. Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol (Chwefror 2015)**

Roedd y Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion mwy manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu cynigion ar gyfer diwygio yn y meysydd canlynol: democratiaeth leol; rolau a chydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig ac uwch-swyddogion; llywodraethu cymunedol a chynghorau cymuned; gwelliant corfforaethol; gwelliant gwasanaethau; craffu; archwilio, arolygu a rheoleiddio; a chyllid.

Cafwyd dros 700 o ymatebion i’r Papur Gwyn a thros 3,000 o ymatebion i’r arolwg barn byr ar-lein. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar 17 Gorffennaf 2015.

**Yr opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer patrwm llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol (Mehefin 2015)**

Ar 17 Mehefin 2015, cyhoeddwyd cynigion diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer patrwm llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol yn seiliedig ar wyth neu naw o awdurdodau newydd.

Roedd y cyhoeddiad yn amlinellu'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer patrwm y dyfodol yn y De, y Canolbarth a’r Gorllewin, gan hybu trafodaeth bellach ynghylch y Gogledd.

**Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni. Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol (Tachwedd 2015)**

Cyhoeddwyd Bil Drafft yn seiliedig ar y cynigion yn y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, a chynigion diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio strwythurol yn destun ymgynghoriad ar 24 Tachwedd 2015. Roedd yn croesawu barn ar yr holl gynigion ar gyfer uno awdurdodau lleol. Amcan cyffredinol y Bil Lywodraeth Leol (Cymru) Drafft oedd:

- sefydlu siroedd newydd a’u cynghorau drwy uno dwy sir neu ddau gyngor bwrdeistref sirol presennol neu ragor
- sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth llywodraeth leol, llywodraethu cymunedol, atebolrwydd, perfformiad a chyllid
- sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus statudol.

Roedd papur ymgynghori cysylltiedig yn egluro lle’r oedd y cynigion yn y ddogfen Grym i Bobl Leol wedi’u haddasu (neu lle penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â nhw) ac roedd yn cynnwys cynigion ychwanegol gan gynnwys materion nad oeddynt wedi’u cynnwys yn y Bil Drafft, ond lle’r oedd bwriad i’w cynnwys yn y Bil i’w gyflwyno.

**Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad (Ionawr 2017)**

Roedd y Papur Gwyn hwn a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2017 yn amlinellu perthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol. Roedd yn nodi dull newydd o ddiwygio yn seiliedig ar fwy o weithio'n rhanbarthol, gan alluogi awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau, comisiynu a chyflenwi ar raddfa briodol. Drwy fabwysiadu dull gweithio'n rhanbarthol gorfodol a systematig, roedd y Papur Gwyn yn disgrifio rôl gryfach i gynghorau a chynghorwyr, yn darparu fframwaith ar gyfer uno'n wirfoddol yn y dyfodol ac yn amlinellu rôl y cynghorau cymuned. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn amlinellu'r cynigion cychwynnol ar gyfer diwygio 'etholiadol' mewn llywodraeth leol.

**Atodiad B - Tablau**

**Tabl 1 – Cysoni ardaloedd awdurdod lleol newydd dangosol â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol**

<table>
<tr><th>Prif Awdurdod Lleol</th><th>Byrddau Iechyd</th><th>Yr Heddlu</th><th>Tân ac Achub</th><th>Y Consortia Addysg</th><th>Bargeinion Dinesig a Thwf</th><th>Ardaloedd Dangosol yr ALlau</th></tr>
<tr><td>Ynys Môn</td><td rowspan="6">Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader</td><td rowspan="6">Heddlu Gogledd Cymru</td><td rowspan="6">Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</td><td rowspan="6">GwE – y Gogledd</td><td rowspan="6">Ranbarth Bargen Twf y Gogledd</td><td rowspan="2">1</td></tr>
<tr><td>Gwynedd</td></tr>
<tr><td>Conwy</td><td rowspan="2">2</td></tr>
<tr><td>Sir Ddinbych</td></tr>
<tr><td>Sir y Fflint</td><td rowspan="2">3</td></tr>
<tr><td>Wrecsam</td></tr>
<tr><td>Powys</td><td>Powys</td><td rowspan="4">Heddlu Dyfed Powys</td><td rowspan="6">Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</td><td rowspan="6">ERW – y De-orllewin a'r Canolbarth</td><td>Tyfu Canolbarth Cymru</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Ceredigion</td><td rowspan="3">Hywel Dda</td><td rowspan="5">Dinas Ranbarth Bae Abertawe</td><td rowspan="3">5</td></tr>
<tr><td>Sir Benfro</td></tr>
<tr><td>Sir Gaerfyrddin</td></tr>
<tr><td>Abertawe</td><td rowspan="3">Abertawe Bro Morgannwg*</td><td rowspan="7">Heddlu De Cymru</td><td rowspan="2">6</td></tr>
<tr><td>Castell-nedd Port Talbot</td></tr>
<tr><td>Pen-y-bont ar Ogwr</td><td rowspan="10">Tân ac Achub De Cymru</td><td rowspan="5">Consortiwm Canolbarth y De – Gwasanaeth Addysg ar y Cyd</td><td rowspan="10">Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd</td><td rowspan="3">7</td></tr>
<tr><td>Rhondda Cynon Taf</td><td rowspan="2">Cwm Taf</td></tr>
<tr><td>Merthyr Tudful</td></tr>
<tr><td>Bro Morgannwg</td><td rowspan="2">Caerdydd a'r Fro</td><td rowspan="2">8</td></tr>
<tr><td>Caerdydd</td></tr>
<tr><td>Casnewydd</td><td rowspan="5">Aneurin Bevan</td><td rowspan="5">Heddlu Gwent</td><td rowspan="5">Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru</td><td rowspan="2">9</td></tr>
<tr><td>Caerffili</td></tr>
<tr><td>Torfaen</td><td rowspan="3">10</td></tr>
<tr><td>Blaenau Gwent</td></tr>
<tr><td>Sir Fynwy</td></tr>
</table>

*Daeth yr ymgynghoriad ar newid ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr i ben ar 7 Mawrth 2018

**Tabl 2 – Dadansoddi poblogaeth yr ardaloedd awdurdod newydd dangosol**

| Prif Awdurdod Lleol | Poblogaeth* | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Poblogaeth* | Amcanestyniad o'r boblogaeth yn 2024** | Amcanestyniad o'r boblogaeth yn 2039** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 69,723 | 1 | 193,350 | 196,300 | 186,500 |
| Gwynedd | 123,627 | | | | |
| Conwy | 116,538 | 2 | 211,343 | 214,600 | 215,500 |
| Sir Ddinbych | 94,805 | | | | |
| Sir y Fflint | 154,419 | 3 | 291,129 | 299,100 | 305,900 |
| Wrecsam | 136,710 | | | | |
| Powys | 132,160 | 4 | 132,160 | 130,600 | 122,400 |
| Ceredigion | 74,146 | 5 | 383,710 | 390,400 | 393,200 |
| Sir Benfro | 123,954 | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 185,610 | | | | |
| Abertawe | 244,513 | 6 | 386,101 | 393,200 | 405,600 |
| Castell-nedd Port Talbot | 141,588 | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 143,177 | 7 | 441,293 | 446,100 | 452,900 |
| Rhondda Cynon Taf | 238,306 | | | | |
| Merthyr Tudful | 59,810 | | | | |
| Bro Morgannwg | 128,463 | 8 | 489,931 | 517,300 | 572,800 |
| Caerdydd | 361,468 | | | | |
| Casnewydd | 149,148 | 9 | 329,610 | 334,500 | 340,400 |
| Caerffili | 180,462 | | | | |
| Torfaen | 92,052 | 10 | 254,523 | 255,200 | 250,000 |
| Blaenau Gwent | 69,628 | | | | |
| Sir Fynwy | 92,843 | | | | |

* Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, StatsCymı
** Amcanestyniad o gyfanswm y boblogaeth yn ôl awdurdod lleol (Cymru), 2014-2039. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Tabl 3 – Dwysedd poblogaeth**

| Prif Awdurdod Lleol | Arwynebedd Tir cilometr sgwâr | Dwysedd poblogaeth (2016)* | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Arwynebedd Tir cilometr sgwâr | Amcangyfrif o'r dwysedd poblogaeth** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 711 | 98.02 | 1 | 3,246 | 59.57 |
| Gwynedd | 2,535 | 48.77 | | | |
| Conwy | 1,126 | 103.51 | 2 | 1,963 | 107.66 |
| Sir Ddinbych | 837 | 113.30 | | | |
| Sir y Fflint | 437 | 352.97 | 3 | 941 | 309.38 |
| Wrecsam | 504 | 271.37 | | | |
| Powys | 5,181 | 25.51 | 4 | 5,181 | 25.51 |
| Ceredigion | 1,786 | 41.52 | 5 | 5,775 | 66.44 |
| Sir Benfro | 1,619 | 76.58 | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 2,370 | 78.31 | | | |
| Abertawe | 380 | 643.95 | 6 | 821 | 470.28 |
| Castell-nedd Port Talbot | 441 | 320.84 | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 251 | 571.04 | 7 | 786 | 561.44 |
| Rhondda Cynon Taf | 424 | 561.84 | | | |
| Merthyr Tudful | 111 | 536.67 | | | |
| Bro Morgannwg | 331 | 388.01 | 8 | 472 | 1037.99 |
| Caerdydd | 141 | 2565.46 | | | |
| Casnewydd | 191 | 782.83 | 9 | 468 | 704.29 |
| Caerffili | 277 | 650.58 | | | |
| Torfaen | 126 | 732.32 | 10 | 1,084 | 234.80 |
| Blaenau Gwent | 109 | 640.39 | | | |
| Sir Fynwy | 849 | 109.34 | | | |

* Ffynhonnell: StatsCymru
**Data poblogaeth a gyfunwyd o Dabl 2 a'u rhannu yn ôl arwynebedd tir a gyfunwyd

**Tabl 4 – Ystadegau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran**

| Prif Awdurdod Lleol | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | 0-15 oed | 16-64 oed | 65 oed a throsodd | 0-15 oed fel % o'r boblogaeth yn gyffredinol | 16-64 oed fel % o'r boblogaeth yn gyffredinol | 65 oed a throsodd fel % o'r boblogaeth yn gyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn<br>Gwynedd | 1 | 32,895 | 115,216 | 45,239 | 17% | 60% | 23% |
| Conwy<br>Sir Ddinbych | 2 | 36,051 | 121,474 | 53,818 | 17% | 57% | 25% |
| Sir y Fflint<br>Wrecsam | 3 | 54,673 | 178,590 | 57,866 | 19% | 61% | 20% |
| Powys | 4 | 21,264 | 76,165 | 34,731 | 16% | 58% | 26% |
| Ceredigion<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin | 5 | 65,093 | 227,387 | 91,230 | 17% | 59% | 24% |
| Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot | 6 | 66,711 | 243,378 | 76,012 | 17% | 63% | 20% |
| Pen-y-bont ar Ogwr<br>Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful | 7 | 81,473 | 275,542 | 84,278 | 18% | 62% | 19% |
| Bro Morgannwg<br>Caerdydd | 8 | 90,282 | 322,873 | 76,776 | 18% | 66% | 16% |
| Casnewydd<br>Caerffili | 9 | 64,282 | 205,357 | 59,971 | 20% | 62% | 18% |
| Torfaen<br>Blaenau Gwent<br>Sir Fynwy | 10 | 44,355 | 155,452 | 54,716 | 17% | 61% | 21% |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol 2016 StatsCymru

**Tabl 5 – Nifer yr aelwydydd yn ôl awdurdod lleol**

| Prif Awdurdod Lleol | Nifer yr aelwydydd | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Nifer yr aelwydydd | Maint cyfartalog aelwyd | Nifer yr aelwydydd un person fel cyfran o gyfanswm yr aelwydydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 30,930 | 1 | 84,767 | 2.22 | 35.40% |
| Gwynedd | 53,837 | | | | |
| Conwy | 52,296 | 2 | 93,586 | 2.21 | 33.10% |
| Sir Ddinbych | 41,290 | | | | |
| Sir y Fflint | 65,489 | 3 | 124,096 | 2.33 | 29.10% |
| Wrecsam | 58,607 | | | | |
| Powys | 59,153 | 4 | 60,616 | 2.20 | 32.40% |
| Ceredigion | 31,389 | 5 | 166,537 | 2.25 | 31.70% |
| Sir Benfro | 54,754 | | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 80,394 | | | | |
| Abertawe | 107,469 | 6 | 168,941 | 2.25 | 33.00% |
| Castell-nedd Port Talbot | 61,473 | | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 60,894 | 7 | 188,891 | 2.31 | 29.90% |
| Rhondda Cynon Taf | 103,277 | | | | |
| Merthyr Tudful | 24,720 | | | | |
| Bro Morgannwg | 55,334 | 8 | 206,577 | 2.31 | 33.40% |
| Caerdydd | 151,243 | | | | |
| Casnewydd | 63,265 | 9 | 139,351 | 2.35 | 29.70% |
| Caerffili | 76,086 | | | | |
| Torfaen | 39,431 | 10 | 109,724 | 2.29 | 30.10% |
| Blaenau Gwent | 30,865 | | | | |
| Sir Fynwy | 39,428 | | | | |

StatsCymru (data aelwydydd 2016)

**Tabl 6 – Maint perthynol cyllidebau cyfalaf a refeniw yr ardaloedd awdurdod lleol newydd dangosol**

| Prif Awdurdod Lleol | Cyllidebau refeniw 2017-18 (£,000) | Cyllidebau cyfalaf 2017-18 (£,000) | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Cyllidebau refeniw 2017-18 (£,000) | Cyllidebau cyfalaf 2017-18 (£,000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £154,393 | £44,344 | 1 | £438,091 | £70,400 |
| Gwynedd | £283,698 | £26,056 | | | |
| Conwy | £264,385 | £32,248 | 2 | £501,910 | £74,998 |
| Sir Ddinbych | £237,525 | £42,750 | | | |
| Sir y Fflint | £314,881 | £47,179 | 3 | £600,107 | £120,666 |
| Wrecsam | £285,227 | £73,487 | | | |
| Powys | £303,257 | £86,358 | 4 | £303,257 | £86,358 |
| Ceredigion | £169,580 | £13,372 | 5 | £853,054 | £190,064 |
| Sir Benfro | £259,050 | £85,762 | | | |
| Sir Gaerfyrddin | £424,425 | £90,930 | | | |
| Abertawe | £549,194 | £106,984 | 6 | £895,880 | £166,257 |
| Castell-nedd Port Talbot | £346,686 | £59,273 | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £328,028 | £63,854 | 7 | £1,071,654 | £182,930 |
| Rhondda Cynon Taf | £595,430 | £107,245 | | | |
| Merthyr Tudful | £148,197 | £11,831 | | | |
| Bro Morgannwg | £289,922 | £64,546 | 8 | £1,098,752 | £207,595 |
| Caerdydd | £808,830 | £143,049 | | | |
| Casnewydd | £358,275 | £36,724 | 9 | £773,008 | £103,380 |
| Caerffili | £414,733 | £66,656 | | | |
| Torfaen | £219,104 | £17,262 | 10 | £573,350 | £68,910 |
| Blaenau Gwent | £175,461 | £16,965 | | | |
| Sir Fynwy | £178,785 | £34,683 | | | |

**Tabl 7 – Gallu perthynol yr ardaloedd awdurdod lleol newydd dangosol i godi'r dreth gyngor**

| Prif Awdurdod Lleol | Sylfaen y dreth gyngor 2017-18 | Y swm i'w godi yn 2017-18 (£,000) | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Sylfaen y dreth gyngor 2017-18 | Y swm i'w godi yn 2017-18 (£,000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 31,137 | £34,735 | 1 | 81,873 | £99,066 |
| Gwynedd | 50,736 | £64,331 | | | |
| Conwy | 50,662 | £57,496 | 2 | 90,535 | £106,117 |
| Sir Ddinbych | 39,873 | £48,621 | | | |
| Sir y Fflint | 64,185 | £72,833 | 3 | 118,162 | £131,093 |
| Wrecsam | 53,977 | £58,260 | | | |
| Powys | 62,483 | £73,049 | 4 | 62,483 | £73,049 |
| Ceredigion | 32,379 | £38,236 | 5 | 162,697 | £176,771 |
| Sir Benfro | 56,884 | £51,113 | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 73,434 | £87,422 | | | |
| Abertawe | 91,759 | £109,060 | 6 | 140,344 | £178,320 |
| Castell-nedd Port Talbot | 48,585 | £69,259 | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 53,836 | £72,509 | 7 | 149,559 | £202,449 |
| Rhondda Cynon Taf | 76,901 | £103,888 | | | |
| Merthyr Tudful | 18,822 | £26,053 | | | |
| Bro Morgannwg | 59,120 | £68,679 | 8 | 204,281 | £226,256 |
| Caerdydd | 145,161 | £157,576 | | | |
| Casnewydd | 58,646 | £58,387 | 9 | 120,182 | £119,483 |
| Caerffili | 61,536 | £61,096 | | | |
| Torfaen | 33,467 | £40,659 | 10 | 100,769 | £127,726 |
| Blaenau Gwent | 21,304 | £30,707 | | | |
| Sir Fynwy | 45,998 | £56,360 | | | |

**Tabl 8 – Ffi gyfartalog y dreth gyngor am eiddo band D yn 2017-18**
(Elfen y Cyngor Sir yn unig, heb gynnwys praeseptau yr heddlu a'r cynghorau cymuned)

| Prif Awdurdod Lleol | Cost y dreth gyngor am eiddo band D |
|---|---|
| Ynys Môn | £1,088 |
| Gwynedd | £1,241 |
| Conwy | £1,113 |
| Sir Ddinbych | £1,191 |
| Sir y Fflint | £1,104 |
| Wrecsam | £1,052 |
| Powys | £1,133 |
| Ceredigion | £1,169 |
| Sir Benfro | £883 |
| Sir Gaerfyrddin | £1,146 |
| Abertawe | £1,208 |
| Castell-nedd Port Talbot | £1,443 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,335 |
| Rhondda Cynon Taf | £1,361 |
| Merthyr Tudful | £1,441 |
| Bro Morgannwg | £1,142 |
| Caerdydd | £1,100 |
| Blaenau Gwent | £1,507 |
| Caerffili | £1,012 |
| Torfaen | £1,183 |
| Casnewydd | £1,009 |
| Sir Fynwy | £1,183 |

**Tabl 9 – Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn yn ôl awdurdod lleol**

| Prif Awdurdod Lleol | Staff Cyfwerth ag Amser Llawn – Mawrth 2017 | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Staff Cyfwerth ag Amser Llawn Posibl |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn* | 2,339 | 1 | 7,279 |
| Gwynedd | 4,940 | | |
| Conwy | 3,785 | 2 | 7,346 |
| Sir Ddinbych | 3,561 | | |
| Sir y Fflint | 5,092 | 3 | 9,314 |
| Wrecsam | 4,222 | | |
| Powys | 4,406 | 4 | 4,406 |
| Ceredigion | 2,431 | 5 | 12,856 |
| Sir Benfro | 4,178 | | |
| Sir Gaerfyrddin | 6,247 | | |
| Abertawe | 8,765 | 6 | 13,598 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4,833 | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4,379 | 7 | 14,052 |
| Rhondda Cynon Taf | 7,837 | | |
| Merthyr Tudful | 1,836 | | |
| Bro Morgannwg | 3,513 | 8 | 14,102 |
| Caerdydd | 10,589 | | |
| Casnewydd | 4,695 | 9 | 10,866 |
| Caerffili | 6,171 | | |
| Torfaen | 3,205 | 10 | 8,142 |
| Blaenau Gwent | 2,264 | | |
| Sir Fynwy | 2,673 | | |

FFYNHONNELL: Cymdeithas Llywodraeth Leol, amcangyfrif yw *

**Tabl 10 – Staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn ôl awdurdod lleol (2014-15 ymlaen)**

| Prif Awdurdod Lleol | Cyfanswm staff | fel % o'r holl staff cyfwerth ag amser llawn* | Ardaloedd Dangosol yr ALlau |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 556 | 24% | 1 |
| Gwynedd | 1235 | 25% | |
| Conwy | 843 | 22% | 2 |
| Sir Ddinbych | 549 | 15% | |
| Sir y Fflint | 1153 | 23% | 3 |
| Wrecsam | 759 | 18% | |
| Powys | 829 | 19% | 4 |
| Ceredigion | 622 | 26% | 5 |
| Sir Benfro | 582 | 14% | |
| Sir Gaerfyrddin | 1461 | 23% | |
| Abertawe | 1725 | 20% | 6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1100 | 23% | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1160 | 26% | 7 |
| Rhondda Cynon Taf | 1892 | 24% | |
| Merthyr Tudful | 329 | 18% | |
| Bro Morgannwg | 708 | 20% | 8 |
| Caerdydd | 1110 | 10% | |
| Casnewydd | 873 | 19% | 9 |
| Caerffili | 1425 | 23% | |
| Torfaen | 415 | 13% | 10 |
| Blaenau Gwent | 757 | 33% | |
| Sir Fynwy | 595 | 22% | |

Ffynhonnell: StatsCymru

**Tabl 11 – Cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y prif awdurdodau lleol ac ar gyfer yr ardaloedd awdurdod newydd dangosol**

| Prif Awdurdod Lleol | Cyfran y siaradwyr Cymraeg | Ardaloedd Dangosol yr ALlau | Amcangyfrif o Gyfran y Siaradwyr Cymraeg** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 57.2% | 1 | 62% |
| Gwynedd | 65.4% | | |
| Conwy | 27.4% | 2 | 26% |
| Sir Ddinbych | 24.6% | | |
| Sir y Fflint | 13.2% | 3 | 13% |
| Wrecsam | 12.9% | | |
| Powys | 18.6% | 4 | 18.6% |
| Ceredigion | 47.3% | 5 | 37% |
| Sir Benfro | 19.2% | | |
| Sir Gaerfyrddin | 43.9% | | |
| Abertawe | 11.4% | 6 | 13% |
| Castell-nedd Port Talbot | 15.3% | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9.7% | 7 | 11% |
| Rhondda Cynon Taf | 12.3% | | |
| Merthyr Tudful | 8.9% | | |
| Bro Morgannwg | 10.8% | 8 | 11% |
| Caerdydd | 11.1% | | |
| Casnewydd | 9.3% | 9 | 10% |
| Caerffili | 11.2% | | |
| Torfaen | 9.8% | 10 | 9% |
| Blaenau Gwent | 7.8% | | |
| Sir Fynwy | 9.9% | | |

* Cyfran y siaradwyr Cymraeg yn ôl Awdurdod Lleol, Cyfrifiad 2011
** Amcangyfrif fel cyfran o'r boblogaeth newydd yn seiliedig ar ddata presennol awdurdodau lleol

**Tabl 12 – Y Gymhareb Cynghorwyr i Etholwyr Gyfartalog**

| Prif Awdurdod Lleol | Nifer yr etholwyr | Nifer y cynghorwyr | Cymhareb Cynghorwyr i Etholwyr (1:#) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 52,576 | 30 | 1,753 |
| Gwynedd | 86,506 | 75 | 1,153 |
| Conwy | 92,354 | 59 | 1,565 |
| Sir Ddinbych | 76,292 | 47 | 1,623 |
| Sir y Fflint | 120,669 | 70 | 1,724 |
| Wrecsam | 102,311 | 52 | 1,968 |
| Powys | 106,765 | 73 | 1,463 |
| Ceredigion | 55,166 | 42 | 1,313 |
| Sir Benfro | 94,431 | 60 | 1,574 |
| Sir Gaerfyrddin | 144,246 | 74 | 1,949 |
| Abertawe | 180,241 | 72 | 2,503 |
| Castell-nedd Port Talbot | 106,227 | 64 | 1,660 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 107,717 | 54 | 1,995 |
| Rhondda Cynon Taf | 176,360 | 75 | 2,351 |
| Merthyr Tudful | 43,914 | 33 | 1,331 |
| Bro Morgannwg | 98,323 | 47 | 2,092 |
| Caerdydd | 252,069 | 75 | 3,361 |
| Blaenau Gwent | 51,941 | 42 | 1,237 |
| Caerffili | 133,842 | 73 | 1,833 |
| Torfaen | 70,777 | 44 | 1,609 |
| Casnewydd | 108,249 | 50 | 2,165 |
| Sir Fynwy | 71,936 | 43 | 1,673 |

Ffynhonnell: Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Noder: Mae yna wahaniaethau mawr o fewn y prif ffigurau hyn. Er enghraifft, mae yna ward yng Ngwynedd lle mae un cynghorydd yn cynrychioli 531 o etholwyr, ond yng Nghaerdydd, ar y llaw arall, ceir un ward lle mae un cynghorydd yn cynrychioli 7,591 o etholwyr.

**Atodiad C - Cwestiynau Ymgynghori**

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (os yw'n briodol) | |
| E-bost / Ffôn | |
| Eich cyfeiriad: | |

| **Pennod 3** |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 1<br>Yn bennod 2, dywedom unwaith eto ein bod wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, gan gydnabod hefyd fod angen gwneud newidiadau pellach i gefnogi hyn. Yn bennod 3, rydym yn cyflwyno'r opsiynau cyffredinol ar gyfer symud tuag at lai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, ac rydym yn crynhoi nodweddion y broses a fyddai'n gyffredin i bob opsiwn. |
| a) Pa gamau ymarferol allai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wneud y trefniadau gweithio'n rhanbarthol presennol yn haws ac yn fwy effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'r consortia addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Dinas a Thwf? |
| |
| b) Beth yw eich barn chi am yr elfennau cyffredin i'r prosesau uno yr ydym yn eu cyflwyno yn yr adran hon? |
| |
| c) Beth yw eich barn chi am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym ar gyfer creu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint? |
| |
| d) A oes unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried ar gyfer creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint? |
| |
| e) A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â chost, manteision ac arbedion pob opsiwn a allai helpu i lywio'r penderfyniad? Os oes, rhowch fanylion. |
| |

| **Pennod 4** |
| --- |
| Cwestiwn Ymgynghori 2<br>Mae'r pennod 4 wedi egluro'r angen am eglurder ar y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a'r ystod o ffactorau y dylid ei hystyried wrth benderfynu ar ffurf newydd. Mae'n cynnig patrwm posibl ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, y gellid ei gyflawni drwy bob un o'r opsiynau a drafodwyd yn y bennod flaenorol. |
| a) Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y patrwm ar gyfer llywodraeth leol y dyfodol? |
| |
| b) Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym i lywio ein syniadau? A fyddech chi'n ychwanegu ffactorau eraill neu'n newid unrhyw ffactor? |
| |
| c) Beth yw eich barn chi am yr ardaloedd newydd a awgrymir yn yr adran hon? |
| |
| d) A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ac, os felly, pa wybodaeth sydd gennych i gefnogi'r rhain fel dewis arall? |
| |
| e) Oes yna unrhyw ddulliau eraill y dylem eu defnyddio i symleiddio trefniadau cydweithio ar lefel ranbarthol a rhwng cyrff cyhoeddus â'i gilydd yn yr ardaloedd awdurdod newydd? Os oes, beth ydyn nhw? |
| |

| **Pennod 5** |
| --- |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 3</u><br>Mae'r pennod hon yn trafod y dull arfaethedig ar gyfer trawsnewid a'r goblygiadau ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Pontio ac etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol o dan bob opsiwn. |
| a) Ydych chi'n cytuno â'r broses bontio arfaethedig: sef sefydlu Pwyllgorau Pontio a sicrhau bod etholiadau i Awdurdodau Cysgodol yn gallu cael eu cynnal cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd? |
| |
| b) Ydych chi'n cytuno, pe byddai opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, y dylem bennu dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol ym mhob cylch etholiadol? |
| |
| c) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y map arfaethedig? |
| |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 4</u><br>Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu cynnal unrhyw etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2021.<br><br>A oes unrhyw reswm pam na fyddai mis Mehefin 2021 yn ddyddiad addas? Os felly, awgrymwch ddyddiad arall gan nodi’r rhesymau pam y byddai’r dyddiad hwnnw yn fwy addas. |
| |

| |
|---|
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 5</u><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cynlluniau neu asesiadau sy'n gysylltiedig â chylchoedd etholiadol, er enghraifft asesiadau llesiant a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag unrhyw gylchoedd etholiadol newydd yn y dyfodol. A oes unrhyw gynlluniau neu faterion eraill a allai fod ynghlwm wrth y cylch etholiadol y mae angen inni eu hystyried? |
| |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 6</u><br>Beth yw eich barn am y dull y dylid ei ddilyn i benderfynu ar derfynau'r adolygiadau etholiadol? |
| |

| **Pennod 6** |
|---|
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 7</u> |
| a) Sut gall cynghorau ddefnyddio gwybodaeth eu haelodau etholedig am eu cymunedau, a'u cysylltiadau ynddynt, yn fwy effeithiol? |
| |
| b) Sut y gallwn gydnabod yn well lefel y cyfrifoldeb o fod yn gynghorydd lleol? Pa newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael fyddai'n galluogi ystod ehangach o bobl i fod yn rhan o'r gynrychiolaeth ddemocrataidd leol? |
| |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 8</u> |
| a) A oes unrhyw bwerau eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw? |
| |

| | |
|---|---|
| b) | A oes rhyddid neu hyblygrwydd eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw? |
| | |
| Cwestiwn Ymgynghori 9 | |
| a) | Pa feysydd sy'n cynnig y cwmpas mwyaf i rannu gwasanaethau trafodiadol? |
| | |
| b) | Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu trefniadau o'r fath? |
| | |
| Cwestiwn Ymgynghori 10 | |
| a) | Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu dull cyson ar draws Cymru, lle bo cysondeb yn bwysig, sut ydych chi'n meddwl fyddai orau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth ar y materion hyn? |
| | |
| b) | Oes unrhyw heriau neu gyfleoedd eraill yn deillio o newid strwythurol neu ddarparu pwerau a hyblygrwydd eraill nad ydynt wedi eu nodi uchod? Os oes angen cymorth ar y meysydd hyn, ym mha ffordd y dylid rhoi'r cymorth hwnnw? |
| | |
| c) | Pa un o'r materion a nodwyd uchod neu yn eich ymateb ddylai gael blaenoriaeth i'w ddatrys yn gynnar? |
| | |

| |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 11.<br>Hoffem wybod eich barn am ba effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| a) Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? |
| |
| b) Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 12<br>Eglurwch hefyd sut y credwch y byddai modd ffurfio neu newid (os bydd angen) y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 13<br>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn am yr asesiad hwnnw. |
| a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |

| |
|---|
| b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 14</u><br>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn rhoi braslun o farn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn am yr asesiad hwnnw. |
| a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |
| b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |
| <u>Cwestiwn Ymgynghori 15</u><br>Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn. |
| |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma

Ymateb Cyngor Ynys Môn i'r Papur Gwyrdd – Atodiad 2

**Cyffredinol**

Mae sefyllfa'r Cyngor Sir mewn ymateb i'r ad-drefnu wedi'i lunio ar yr egwyddorion canlynol yn seiliedig ar lywodraeth leol yn bod yn atebol ar gyfer darparu gwasanaethau:

1) Yr angen i ddarparu trigolion Ynys Môn â gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Cydnabyddir y gallai hyn gynnwys cydweithio rhanbarthol ac is-ranbarthol er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd ac gwytnwch angenrheidiol yn ei le a bod angen sefydlu trefniant er mwyn sicrhau atebolrwydd uniongyrchol yn lleol ar gyfer ansawdd y gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen dealltwriaeth o'r math o wasanaethau a fydd yn cael eu darparu'n rhanbarthol, yn is-ranbarthol ac yn lleol, wedi'i alinio'n fras â chanfyddiadau Comisiwn Williams ond hefyd yn awgrymu bod angen i lywodraeth leol wneud penderfyniadau ar strwythurau cydweithio.

2) Fe ddylai unrhyw drefniadau cydweithio fod yn seiliedig ar y buddion tebygol i drigolion Ynys Môn neu ar y rhagdybiaeth y gellir darparu gwasanaethau o'r un safon yn rhatach.

3) Mae'r Cyngor o'r farn bod arweinyddiaeth yn seiliedig ar wybodaeth leol yn bwysicach na maint. Mae'r Cyngor o'r farn y gellid bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o gydweithio a darpariaeth leol, h.y. estyniad naturiol o'r sefyllfa bresennol. Yn ychwanegol, at hynny, cydnabyddir bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i unrhyw bosibilrwydd o ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cost-effeithiol, e.e. lleihau costau rheoli neu wasanaethau cefnogi.

Fe ddylai'r materion allweddol hyn fod yn ganolog i unrhyw benderfyniad ar ad-drefnu llywodraeth leol, yn hytrach na llinellau ar fap.

Mae'r Ddogfen Ymgynghorol ar y Papur Gwyrdd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer 'llywodraeth leol gryf, sydd wedi'i grymuso yng Nghymru',
Fodd bynnag, mae'n methu ag arddangos sut yn union y bydd y dyheadau hyn yn cael eu cyflawni – ar ba gost ac ar ba gost i ddemocratiaeth leol yn benodol? Mae'n canolbwyntio ar strwythurau a model mwy canolog lle mae sefydliad mwy yn well. Mae tystiolaeth i awgrymu bod modelau sy'n seiliedig ar ardaloedd daearyddol mawr yn gostus a bod cynaliadwyedd yn her sylweddol e.e. iechyd.

Mae'r Cyngor eisoes wedi amlygu pwysigrwydd cynnal y status quo o ran strwythurau er mwyn diogelu atebolrwydd lleol ac y dylai darpariaeth gwasanaeth ganolbwyntio ar fodloni anghenion cymunedau lleol (Ymateb i'r Papur Gwyn, 2017). Mae'r Cyngor hefyd wedi amlygu a chydnabod manteision darparu rhai gwasanaethau'n rhanbarthol fel yn achos Gogledd Cymru a bod y modelau hyn o gydweithio yn darparu gwell defnydd o adnoddau traws-sector ac atebolrwydd yn lleol. Mae angen cael y cydbwysedd cywir rhwng y manteision o'r hyn a ddarperir yn lleol ac yn rhanbarthol, wedi'i siapio gan gynrychiolaeth ddemocrataidd ar lefel leol gan y rhai hynny a gaiff eu hethol i wasanaethu eu cymunedau.

Fe ddylai modelau gael y rhyddid i dyfu mewn modd organig ac nid eu gorfodi o'r canol. Nid yw sefydliadau mwy bob amser yn gwasanaethu cymunedau'n dda oherwydd natur a hynodrwydd cymunedau a gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Lle mae'r dystiolaeth i gefnogi'r syniad y bydd awdurdodau mwy yn 'grymuso cymunedau'? Sut bydd partneriaeth gyfartal yn cael ei sicrhau drwy uno gorfodol? Beth am effeithiau cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor a'r effaith ar drigolion lleol mewn cyfnod o gynni ariannol estynedig? Beth am y blaenoriaethau ar wario ar sail gyfartal cyn 1996 yn yr hen Gyngor Sir Gwynedd mewn meysydd megis y stad mân-ddaliadau?

Mae'r Papur Gwyrdd yn canolbwyntio'n ormodol ar strwythurau, llinellau ar fap a mwy o bwerau ond yn gymharol ddistaw ar sut orau i sicrhau atebolrwydd yn lleol. Ond eto, mae'r hyn a gynigir yn y ddogfen i lunio 'gwasanaethau cyhoeddus mwy gwydn a chynaliadwy sydd ag atebolrwydd democrataidd wrth wraidd hynny.' Lle mae'r dystiolaeth bod y Papur Gwyrdd yn mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn? Yn 2006, comisiynwyd Prifysgol Caerdydd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i ddadansoddi'r berthynas rhwng maint a pherfformiad o fewn llywodraeth leol. Roedd y canlyniadau'n dangos bod maint yn effeithio ar berfformiad Cyngor. Dangosodd ymchwil dilynol gan Brifysgol Caerdydd ar ran yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2008 bod ad-drefnu er mwyn creu cynghorau mwy yn amharu'n sylweddol ar berfformiad sefydliadol.

Does dim cyfeiriad er enghraifft at effeithiolrwydd y trefniadau democrataidd yn y Cyngor hwn ar hyn o bryd a sut y gellid gweithredu'r un patrwm yn rhywle arall. Mae'n annhebygol y gellir gwella trefniadau democrataidd drwy leihau nifer y Cynghorwyr. Bydd Ad-drefnu Llywodraeth leol yn achosi aflonyddwch ymysg trigolion ar amser lle mae cyllidebau o dan bwysau. Mae'r Cyngor hwn wedi dangos bod perfformiad y gwasanaethau wedi gwella fel sy'n amlwg o'r setiau data allweddol a gyhoeddwyd gan yr Uned Ddata yn 2016/17. Nid yw'n dymuno gweld ad-drefnu yn effeithio ar y gwaith hwnnw ac yn tynnu sylw oddi wrth y cynnydd a wneir ar brosiectau isadeiledd mawr a arweinir gan y Cyngor a'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau. Gwelir hyn hefyd fel rhywbeth sy'n tynnu sylw sylweddol ar adeg lle mae cynlluniau strategol yn eu lle er mwyn trawsnewid meysydd allweddol a bodloni targedau effeithlonrwydd. Lle mae'r dystiolaeth o gefnogaeth gyhoeddus i hyn?

Mae'r Papur Gwyrdd yn dawel iawn hefyd ynghylch yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r pwrs cyhoeddus nid yn unig yn ariannol ond mathau eraill o ansicrwydd hefyd e.e. Brexit. Fe ddylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar sicrhau buddion Brexit i Gymru yn hytrach na chanolbwyntio ar ffiniau llywodraeth leol. Sut er enghraifft fydd y cynigion hyn yn effeithio ar raglenni strategol Llywodraeth Cymru a chyflymder rhaglenni trawsnewid mawr e.e. o fewn Addysg.

Mae Awdurdodau Lleol wedi gorfod gwneud toriadau flwyddyn ar flwyddyn o ganlyniad i ostyngiad mewn grantiau gan y Llywodraeth ganolog. Mae Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi nad yw'r sefyllfa yn gynaliadwy o ganlyniad i raddfa'r toriadau. Fe ddylai cyllid cyhoeddus fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag ad-drefnu sy'n gostus ar y gorau.

Sut bydd ad-drefnu yn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol o gyllid ond hefyd gwariant ar iechyd? Oni bai y bydd hyn yn cael sylw, bydd gwytnwch ariannol y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn her sylweddol, Sut mae'r cynigion yn cymharu â newidiadau arfaethedig eraill ledled Cymru – ac yn enwedig cynrychiolaeth ddemocrataidd gynyddol yn y Cynulliad a chostau canolog ychwanegol ar draul llywodraeth leol? Nid yw'r Papur Gwyrdd yn darparu manylion ar sut y bydd awdurdodau lleol yn sicrhau arbedion. Dylid rhoi mwy o ryddid i lywodraeth leol fod yn arloesol a llai o ymyrraeth o'r canol.

Cyfeirir ar yr angen i Gynghorau mwy ddarparu 'atebion newydd wedi'u grymuso' (tudalen 8). Fodd bynnag, nid yw'r atebion hyn wedi'u hamlinellu ac mae angen cadarnhad. Lle mae'r dystiolaeth i gefnogi'r syniad bod y strwythur presennol yn methu cyfleoedd i drawsnewid y ddarpariaeth o wasanaethau a'r achos i ail-ymweld â strwythurau? Mae'r Papur Gwyrdd yn cyfeirio at opsiynau i greu awdurdodau lleol cryfach a mwy pwerus er mewn gwirionedd dim ond un opsiwn a gyflwynir ar strwythurau ac amserlenni amrywiol.

**Penodol**

Mae paragraff 2.4 yn cyfeirio at sylwadau gan Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion ariannu. Sut bydd ad-drefnu yn mynd i'r afael â'r pwynt sylfaenol hwn –

mae hyn yn ganolog i unrhyw drafodaeth ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw ad-drefnu. Mae' Papur gwyrdd yn cyfeirio'n helaeth at ganfyddiadau'r Comisiwn Williams a bod angen ad-drefnu er mwyn sicrhau gwytnwch ariannol. Ers adroddiad Williams, mae awdurdodau lleol wedi gwneud arbedion sylweddol ar adeg o gyllidebau llai a hynny tra'n trawsnewid sefydliadau. Lle mae'r dystiolaeth sy'n dangos nad yw hyn wedi cael sylw? Yn Ynys Môn, mae arbedion o £8.4 miliwn wedi eu gwneud rhwng 2016/17 a 2018/19.

Mae paragraff 2.8 yn cyfeirio at yr heriau a wynebir gan awdurdodau llai o ganlyniad i'w maint ac ati – a yw'r rheoleiddwyr yn rhannu'r farn hon?

Paragraff 2.9 – bydd gwytnwch ariannol yn parhau i fod yn her o ganlyniad i'r cynnydd mewn galw, cynnydd mewn costau a tan y cynhelir trafodaeth go iawn am ariannu iechyd yng Nghymru. Mae'r Papur Gwyrdd yn cyfeirio at wasanaethau sydd bron â methu er bod Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid ar gyfer awdurdodau lleol. Mae CIPFA a Deloittes wedi cwestiynu costau cynigion y gorffennol ar gyfer Ad-drefnu Llywodraeth leol, sy'n llawer uwch na'r costau a ragwelir gan Lywodraeth Cymru.

Paragraff 2.12 – mae awdurdodau lleol wedi dadlau na ddylai cydweithio'n rhanbarthol gael ei orfodi o'r canol ond yn hytrach y dylid gadael iddo ddatblygu yn lleol ac y dylid datblygu cydweithio mewn modd organig. Mae paragraff 2.16 yn cyfeirio at ddiffyg cynnydd o ran cyfuno cyllidebau a chynlluniau datblygu lleol ar y cyd fel enghreifftiau. Mae cyfuno cyllidebau yn enghraifft wael ac yn syniad a orfodwyd gan Lywodraeth Cymru heb roi unrhyw feddwl iddo yn hytrach na chysyniad y dylid rhoi hyblygrwydd i'w ddelio ag ef yn fwy lleol. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio er mwyn darparu gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a sicrhau buddion sylweddol. Mae'r awdurdod hwn eisoes wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd â Gwynedd – mae'n groes i'r datganiad a wneir yn yr adran hon.

Paragraff 2.21 – mae hyn yn cyfeirio at strwythurau newydd, cryfach a gefnogir gan ddarpariaeth rhanbarthol. Nid yw'r Papur Gwyrdd yn dangos sut bydd hyn yn cael ei gyflawni, er y cydnabyddir y bydd gwaith rhanbarthol yn chwarae rôl hanfodol yn y dyfodol. Mae atebolrwydd yn hanfodol i unrhyw fodel o ddarpariaeth rhanbarthol. Y sefyllfa o ran buddion darpariaeth ranbarthol yma....

Paragraff 2.22 a'r 3 opsiwn ar gyfer creu llai o awdurdodau sy'n fwy o faint. Yr hyn a gyflwynir yma mewn gwirionedd yw un opsiwn â gwahanol bosibiliadau o ran amserlen. Nid yw hyn yn ateb y cwestiwn ai hwn yw'r datrysiad cywir ac a yw'r amseriad yn gywir. Does dim opsiynau gwahanol yn cael eu cyflwyno. Pam nad oes trafodaeth ar yr ôl troed rhwng awdurdodau lleol ac iechyd er enghraifft o gofio cymhlethdod a maint y cyllidebau? Nid yw'n glir a fydd ad-drefnu yn datrys yr heriau a wynebir gan awdurdodau lleol. A fydd y costau uno yn gorbwyso'r gwir gostau i ddinasyddion, cymunedau a gweithwyr ac yn amharu ar atebolrwydd lleol. Gall strwythurau sy'n seiliedig ar gyflawni arbedion maint ac olion troed mawr fod yn aneffeithiol, yn gostus ac yn llai effeithlon yn y pen draw.

Mae paragraff 2.24 yn cydnabod y bydd uno'n costio er mai ychydig iawn o gyfeiriad sydd i bwerau newydd a hyblygrwydd ac nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r mater o gyllid teg a chynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol.

| |
|---|
| **Pennod 3** |
| **<u>Cwestiwn Ymgynghori 1</u>**<br>**Yn bennod 2, dywedom unwaith eto ein bod wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd allweddol, gan gydnabod hefyd fod angen gwneud newidiadau pellach i gefnogi hyn. Yn bennod 3, rydym yn** |

DRAFT

**cyflwyno'r opsiynau cyffredinol ar gyfer symud tuag at lai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint, ac rydym yn crynhoi nodweddion y broses a fyddai'n gyffredin i bob opsiwn.**

**a) Pa gamau ymarferol allai Llywodraeth Cymru eu cymryd i wneud y trefniadau gweithio'n rhanbarthol presennol yn haws ac yn fwy effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â'r consortia addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r Dinas-ranbarthau a'r Bargeinion Dinas a Thwf?**

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyn yn 2017. Gallai Ad-drefnu Llywodraeth Leol gael effaith negyddol ar y momentwm ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Effaith bosibl ar feysydd allweddol – e.e. byddai angen ystyried Bid Twf Economaidd Gogledd Cymru.

**b) Beth yw eich barn chi am yr elfennau cyffredin i'r prosesau uno yr ydym yn eu cyflwyno yn yr adran hon?**

Gweler y sylwadau rhagarweiniol. Mae'r Cyngor wedi mynegi ei wrthwynebiad i unrhyw uno yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae wedi croesawu safbwynt Llywodraeth Cymru yn y gorffennol ar olion troed rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau mawr ar yr amod y gellir sicrhau atebolrwydd lleol drwy drefniadau llywodraethu priodol.

**c) Beth yw eich barn chi am yr opsiynau a gyflwynwyd gennym ar gyfer creu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint?**

Nid yw'r Cyngor yn cefnogi hyn. Mae'r Papur Gwyrdd yn methu â darparu tystiolaeth a sicrwydd digonol bod awdurdodau sy'n fwy o faint yn well o ran darparu canlyniadau ar gyfer dinasyddion a'u bod yn fwy effeithlon.

**d) A oes unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried ar gyfer creu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint?**

Does dim digon o fanylion yn y Papur Gwyrdd am yr achos dros greu llai o awdurdodau, sy'n fwy o faint a'r costau cysylltiedig â hynny. Sut bydd llywodraeth leol yn cael ei ddiogelu – mae risg y byddai hyn ar draul model wedi'i ganoli dros ardal ddaearyddol fwy â gofynion sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

e) **A oes gennych dystiolaeth ynglŷn â chost, manteision ac arbedion pob opsiwn a allai helpu i lywio'r penderfyniad? Os oes, rhowch fanylion**.

Y pwynt sylfaenol yma yw nad oes manylion digonol am gostau yn gyffredinol sy'n ganolog i'r holl gynllun.
Fe ddylai gwybodaeth ar gostau fod wedi cael ei phennu cyn penderfynu a yw'r opsiynau yn hyfyw ai peidio.

**Pennod 4**

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 2</u>**

**Mae pennod 4 wedi egluro'r angen am eglurder ar y patrwm ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol a'r ystod o ffactorau y dylid ei hystyried wrth benderfynu ar ffurf newydd. Mae'n cynnig patrwm posibl ar gyfer llywodraeth**

DRAFT

| | |
|---|---|
| | **leol yn y dyfodol, y gellid ei gyflawni drwy bob un o'r opsiynau a drafodwyd yn y bennod flaenorol.** |
| **a)** | **Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y patrwm ar gyfer llywodraeth leol y dyfodol?** |
| | Nid yw'r Cyngor yn cefnogi'r cynigion presennol.<br>Er bod eglurder yn bwysig, mae'r pwynt sylfaenol yma yn ymwneud â'r angen i fynd i'r afael ag atebolrwydd lleol a darparu gwell canlyniadau. Does dim newidiadau wedi'u cynllunio yma ar gyfer Iechyd er fe argymhellir aliniad ag olion troed rhanbarthol ar adeg lle mae costau'n cynyddu. |
| **b)** | **Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau a nodwyd gennym i lywio ein syniadau? A fyddech chi'n ychwanegu ffactorau eraill neu'n newid unrhyw ffactor?** |
| | Mae angen i'r achos dros newid fod yn un grymus, wedi'i gefnogi gan ddadansoddiad cost gwrthrychol a chadarn. Mae angen i unrhyw newid allu dangos a yw cynghorau sy'n fwy o faint yn gallu cael eu llywodraethu'n dda ac yn atebol yn ddemocrataidd a bod modd iddynt berfformio'n well na Chynghorau presennol. Mae'r gallu i arddangos gwytnwch ariannol yr un mor bwysig.<br><br>Mae angen eglurder ar bwerau newydd ac hyblygrwydd. Mae mwy o gydweithio ac integreiddio ag Iechyd er mwyn lleihau costau a biwrocratiaeth yn bwysig. Mae'n siomedig nad yw adolygiad o'r gwariant ar iechyd yn cael ei grybwyll. |
| **c)** | **Beth yw eich barn chi am yr ardaloedd newydd a awgrymir yn yr adran hon** |
| | Ni chefnogir hyn gan y Cyngor |
| **d)** | **A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ac, os felly, pa wybodaeth sydd gennych i gefnogi'r rhain fel dewis arall?** |
| | Cyfeiriwch at ymateb y Cyngor o dan gwestiwn 1 |
| **e)** | **Oes yna unrhyw ddulliau eraill y dylem eu defnyddio i symleiddio trefniadau cydweithio ar lefel ranbarthol a rhwng cyrff cyhoeddus â'i gilydd yn yr ardaloedd awdurdod newydd? Os oes, beth ydyn nhw?** |
| | Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu enghreifftiau penodol o ble mae hyn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| | **Pennod 5** |
| | **<u>Cwestiwn Ymgynghori 3</u>**<br>**Mae'r pennod hon yn trafod y dull arfaethedig ar gyfer trawsnewid a'r goblygiadau ar gyfer sefydlu Pwyllgorau Pontio ac etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol o dan bob opsiwn.** |
| **a)** | **Ydych chi'n cytuno â'r broses bontio arfaethedig: sef sefydlu Pwyllgorau Pontio a sicrhau bod etholiadau i Awdurdodau Cysgodol yn gallu cael eu cynnal cyn y diwrnod breinio ar gyfer yr awdurdodau newydd?** |
| | |

| | |
|---|---|
| | Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r strwythurau a oedd yn eu lle cyn ad-drefnu 1996. Mae Ad-drefnu Llywodraeth leol yn tynnu sylw staff, Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth yn sylweddol oddi ar bethau eraill - yn enwedig rŵan pan mae gwasanaethu o dan bwysau i sicrhau arbedion. Mae dilyniant o ran darparu ar gyfer y dyfodol yn bwysig. Mae diwygio yn gostus ac yn gymhleth ac mae angen capasiti rheoli newid ychwanegol.<br>Nid yw'r amserlen ar gyfer diwygio'r strwythur wedi'i chynllunio'n dda, mae'n gyfnod o gynni ariannol ac ansicrwydd cenedlaethol.<br><br>Mae'r cyfnod o drawsnewid yn ymwneud nid yn unig ag Awdurdodau Cysgodol ond hefyd beth sy'n digwydd i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn nwy flynedd olaf yr hen Gynghorau. Wrth i fwy o amser gael ei dreulio ar yr awdurdodau cysgodol bydd llai o amser staff yn cael ei dreulio yn rhedeg y gwasanaethau cyfredol, gyda'r rheini yn – dyma ddigwyddodd i raddau ym 1996. |
| **b)** | **Ydych chi'n cytuno, pe byddai opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, y dylem bennu dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol ym mhob cylch etholiadol?** |
| | Nid yw uno gwirfoddol wedi llwyddo yn y gorffennol ac yn gyffredinol, ychydig iawn o ddiddordeb a ddangoswyd mewn datblygu hyn. |
| **c)** | **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y map arfaethedig?** |
| Dim sylwadau pellach | |
| **<u>Cwestiwn Ymgynghori 4</u>**<br>**Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu cynnal unrhyw etholiadau llywodraeth leol ym mis Mehefin 2021.**<br><br>**A oes unrhyw reswm pam na fyddai mis Mehefin 2021 yn ddyddiad addas? Os felly, awgrymwch ddyddiad arall gan nodi'r rhesymau pam y byddai'r dyddiad hwnnw yn fwy addas.** | |
| Gweler y sylwadau uchod ar yr amseriad i weithredu argymhellion LDBCW ac unrhyw weithrediad statudol dilynol. Mae angen i unrhyw newid ar y raddfa hon gael ei gynllunio'n gywir ac ni ddylid ei wneud ar frys. 2021 fydd yr adeg y bydd trefniadau trawsnewidiol Brexit yn dod i ben. Yda ni angen gorfod delio gyda mater arall ar yr un pryd? | |
| **<u>Cwestiwn Ymgynghori 5</u>**<br>**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai cynlluniau neu asesiadau sy'n gysylltiedig â chylchoedd etholiadol, er enghraifft asesiadau llesiant a baratoir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd ag unrhyw gylchoedd etholiadol newydd yn y dyfodol. A oes unrhyw gynlluniau neu faterion eraill a allai fod ynghlwm wrth y cylch etholiadol y mae angen inni eu hystyried?** | |
| Mae hyn yn eisoes yn cael ei bennu gan statud i raddau helaeth | |

**Cwestiwn Ymgynghori 6**
**Beth yw eich barn am y dull y dylid ei ddilyn i benderfynu ar derfynau'r adolygiadau etholiadol?**

Does dim sôn am adolygu’r model aml-aelod yn Ynys Môn a’r buddion / anfanteision o ran cynrychiolaeth ddemocrataidd ac a fydd y math hwn o fodel yn cael ei ailadrodd yn yr ardaloedd awdurdod lleol arfaethedig. Mae gwerthusiad yn bwysig ac fe ddylai fod yn rhan o adolygiad. Hefyd, cyfeirir at LDBCW yn cyflwyno argymhellion erbyn Awst 2020. Mae angen eglurder ar sut mae’r amserlen hon yn addas ar gyfer uno gwirfoddol.

**Pennod 6**

**Cwestiwn Ymgynghori 7**

**a) Sut gall cynghorau ddefnyddio gwybodaeth eu haelodau etholedig am eu cymunedau, a'u cysylltiadau ynddynt, yn fwy effeithiol?**

Mae Aelodau Etholedig yn chwarae rhan hanfodol mewn democratiaeth iach a siapio lle. Yn y gorffennol, mae’r Cyngor wedi pwysleisio pwysigrwydd llywodraethiant da ac atebolrwydd lleol. Mae angen arweiniad clir ar y disgwyliadau ar Aelodau i ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau gan gynnwys gosod amcanion ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol.

**b) Sut y gallwn gydnabod yn well lefel y cyfrifoldeb o fod yn gynghorydd lleol? Pa newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael fyddai'n galluogi ystod ehangach o bobl i fod yn rhan o’r gynrychiolaeth ddemocrataidd leol?**

Mae’r IRP wedi cael y dasg o edrych ar hyn. Yr her yw ceisio denu trawstoriad o bobl i sefyll ar gyfer etholiad. Mae’r gofynion yn drwm ac yn cynyddu o ystyried y rolau yr ymgymerir â nhw ac mae hyn wedi’i gydnabod gan yr IRP. Mae’n gynyddol heriol cydbwyso swydd amser llawn gyda bod yn Gynghorydd. Byddai angen newidiadau sylweddol i lwfansau er mwyn denu mwy o ddiddordeb.

**Cwestiwn Ymgynghori 8**

**a) A oes unrhyw bwerau eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw?**

Nid yw dyfarnu pwerau ychwanegol yn golygu bod angen ad-drefnu Llywodraeth Leol. Ni ystyrir y dylai hyn fod yn rhan o’r broses hon. Byddai’r gallu i ddarparu cymhelliannau o ran lefel y trethi busnes a godir o well budd i fusnesau lleol a’r economi leol.
Dylid cadw’r gallu i osod lefelau’r Dreth Gyngor a fe ddylai’r broses gynllunio gael ei phenderfynu ar lefel leol.
Gallu swyddogaethau a reolir gan y Cyngor i wneud elw ar gyfer ei ail-fuddsoddi yng ngwasanaethau’r Cyngor.
Fe ddylai’r arian a godir gan yr ardoll prentisiaethau gael ei fuddsoddi gan awdurdodau lleol mewn adnoddau hyfforddiant.

**b) A oes rhyddid neu hyblygrwydd eraill y dylid eu rhoi i lywodraeth leol? Os oes, beth ydyn nhw?**

Ar hyn o bryd, nid oes gan Awdurdodau Lleol ond y grym i gynnal cydbwyllgorau

DRAFT

â'i gilydd ac nid â chyrff eraill boed y rheini yn gyhoeddus neu'n gorfforaethol – dylid adolygu hyn.

**Cwestiwn Ymgynghori 9**

**a) Pa feysydd sy'n cynnig y cwmpas mwyaf i rannu gwasanaethau trafodiadol?**

Mae Sylwadau'r Cyngor ar y Papur Gwyn 2017 yn berthnasol:

"Byddai diffiniad cyffredin o "swyddfa gefn" a "gwasanaethau trafodiadol" yn bwynt cychwyn defnyddiol i sefydlu eglurder. Dylai hyn fod yn berthnasol i wasanaethau Trafodiadol, neu agweddau trafodiadol ar rai swyddogaethau swyddfa gefn, sy'n addas ar gyfer glasbrint cyffredin. Er mwyn glynu wrth arfer, technoleg a safonau cyffredin dylai'r rhain fod yn genedlaethol yn hytrach na rhanbarthol. I sicrhau'r arbedion mwyaf posib dylent (yn y pen draw) fod yn weithredol ar draws y sector cyhoeddus, nid dim ond mewn llywodraeth leol.

Mae tair prif elfen o ran costau Gwasanaethau Trafodiadol - costau staffio i brosesu'r trafodiad, costau T.G. (caledwedd a meddalwedd) a chostau rheoli. Nid yw'r trefniant rhanbarthol yn gwneud dim i leihau nifer y trafodion, ac o ganlyniad nid yw'r arbedion o ran nifer y staff sy'n ymdrin â thrafodion yn sylweddol fel arfer. Cytunir y gellir gwneud arbedion ar gostau meddalwedd a rhai costau rheoli, ond mae costau ychwanegol a materion ymarferol na ellir eu hanwybyddu. Yn gyntaf, mae'r 6 Chyngor yn defnyddio systemau gwahanol a gallai'r gost o derfynu'r contractau presennol a symud i un cyflenwr meddalwedd ar gyfer pob gwasanaeth trafodiadol fod yn uchel. Yn ail, mae gwasanaethau trafodiadol yn tueddu i fod yn ariannol o ran eu natur (cyflogres, taliadau credydwyr, treth gyngor, budd-dal tai ac ati) ac, o ganlyniad, rhaid cofnodi manylion y trafodion yn system gyfrifyddu ariannol pob Cyngor. Mae'r holl systemau yn wahanol a gallai rhyngwynebu o system ganolog i 6 systemau gyfrifyddu ar wahân fod yn gostus i sefydlu a'i gynnal. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth asesu arbedion cyffredinol yn sgil unrhyw waith rhanbarthol.

Dylid nodi bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu'n well yn lleol ac yn rhanbarthol, a hynny oherwydd yr angen i'w teilwra ac i gysylltu'n uniongyrchol â chleientiaid. Mae llawer o'r gwasanaethau hyn eisoes wedi cael toriadau ariannol sylweddol dros y chwe blynedd diwethaf ac mae'n annhebygol y bydd arbedion yn y tymor byr neu ganolig. Gwydnwch a meithrin / datblygu cronfa o weithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus ddylai fod yr amcan sydd â'r flaenoriaeth fwyaf.

Er bod yr egwyddor o ddefnyddio'r "Partneriaeth Cyd-wasanaethau GIG" yn ymddangos yn ystyriaeth resymegol a synhwyrol, mae'r profiad o ddefnyddio llwyfan e-ddysgu GIG wedi bod yn drwm ar adnoddau.

Profwyd eisoes bod gwasanaethau Adnoddau Dynol a TGCh yn fwy cost-effeithiol y pen na gweithredu ar sail ranbarthol. Dygir sylw at y ffaith hefyd bod angen i wasanaethau swyddfa gefn gynnig a darparu gwasanaethau dwyieithog."

Pwysleisiodd y Cyngor hefyd y byddai papur strategol yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer hysbysu agweddau rhanbarthol a lleol yn fan cychwyn defnyddiol.

Mae'r Papur Gwyrdd yn cyfeirio yn 6.18 at awdurdodau newydd â phwerau ychwanegol ac hyblygrwydd er mwyn gallu ail ddiffinio ac ail ddylunio gwasanaethau. Byddai'n ddefnyddiol cael cadarnhad o'r hyn sy'n cael ei argymell yma, wedi'i gefnogi gan enghreifftiau penodol. Hefyd, byddai angen gallu darparu unrhyw wasanaethau yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg.

DRAFT

Fe ddylai rhwystrau statudol i wasanaethau a rennir rhwng gwahanol rannau o’r sector cyhoeddus yng Nghymru gael eu diddymu er mwyn galluogi rhannu gwaith yn draws ffiniol.

Mae’r sylwadau ym mharagraff 6.21 yn gynhennus – gwobrwyo’r awdurdodau hynny sy’n fodlon cydweithio er mwyn llunio datrysiadau lleol a gadael eraill i fabwysiadu modelau sy’n cael eu llunio gan eraill.

**b) Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu trefniadau o'r fath?**

Dim sylwadau pellach

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 10</u>**

**a) Er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu dull cyson ar draws Cymru, lle bo cysondeb yn bwysig, sut ydych chi'n meddwl fyddai orau i ddarparu'r cyngor a'r cymorth ar y materion hyn?**

Mae’r adran hon yn cyfeirio at y gweithlu, cefnogi newid, trawsnewid gwasanaethau, systemau a gwneud y mwyaf o asedau ac ati.

Byddai colli unrhyw swyddi llywodraeth leol yn cael effaith sylweddol ar yr economi yn Ynys Môn ac yn enwedig economi Llangefni. Mae paragraff 6.27 yn cyfeirio at ddiogelu swyddi mewn ardaloedd difreintiedig. Sut bydd hyn yn cael ei ddatrys a swyddi’n cael eu diogelu? Sut bydd y gost o newid yn cael ei ariannu?

Byddai Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn cael effaith ar y gallu i gadw staff a recriwtio ac yn achosi aflonyddwch di-angen.

**b) Oes unrhyw heriau neu gyfleoedd eraill yn deillio o newid strwythurol neu ddarparu pwerau a hyblygrwydd eraill nad ydynt wedi eu nodi uchod? Os oes angen cymorth ar y meysydd hyn, ym mha ffordd y dylid rhoi'r cymorth hwnnw?**

Dim sylwadau pellach

**c) Pa un o'r materion a nodwyd uchod neu yn eich ymateb ddylai gael blaenoriaeth i'w ddatrys yn gynnar?**

Dim sylwadau pellach

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 11.</u>**

DRAFT

**Hoffem wybod eich barn am ba effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ac o ran peidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**a) Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?**

Mae cydymffurfiaeth â goblygiadau statudol o ran yr Iaith Gymraeg yn hanfodol. Bydd angen i unrhyw ad-drefnu ar y raddfa hon gael ei reoli a'i gefnogi er mwyn sicrhau ffyniant y Gymraeg a bod anghenion dinasyddion yn cael eu bodloni. Rhaid i unrhyw uno sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth ar gael yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth bob amser ac fe ddylai hyn fod yn rhan annatod o unrhyw drefniadau ar gyfer ail ddylunio gwasanaeth.

**b) Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Dylid cymryd camau rhagweithiol er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu'r lefelau angenrheidiol o sgiliau dwyieithog (gall y broses hon gael ei hysbysu drwy gyfrwng adolygiad sylfaenol).

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 12</u>**

**Eglurwch hefyd sut y credwch y byddai modd ffurfio neu newid (os bydd angen) y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae materion ymarferol megis argaeledd digonol o staff sy'n siarad Cymraeg yn heriol mewn rhai meysydd ac o fewn rhai gwasanaethau.

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 13</u>**

**Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.**

**a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sydd heb eu nodi yn yr asesiad?**

Mae'n bwysig amlygu buddiannau a llesiant plant fel un o'r prif bryderon.

**b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?**



DRAFT

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 14</u>**

**Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yn rhoi braslun o farn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.**

**a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad?**

Bydd angen gwybodaeth fanwl er mwyn egluro i ddefnyddwyr gwasanaeth sut y byddant yn cael mynediad i wasanaethau a dewis iaith e.e. defnyddwyr gwasanaeth hŷn nad oes ganddynt gludiant a'r anabl

b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Angen mwy o wybodaeth fanwl

**<u>Cwestiwn Ymgynghori 15</u>**

**Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys yr ymgynghoriad hwn.**

DRAFT